

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

Ymchwil gymdeithasol


Rhif: 08/2012



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

# Cronfa Buddsoddi i Arbed: Gwerthusiad Interim



## **Cronfa Buddsoddi i Arbed:**

Gwerthusiad Interim

## **Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru**

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch ag:

Ian Jones

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 5540

E-bost: [ian.jones2@wales.gsi.gov.uk](mailto:ian.jones2@wales.gsi.gov.uk)

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 2012

ISBN 978 0 7504 7097 1

© Hawlfraint y Goron 2012

# Cynnwys

Rhestr o dablau a ffigurau	4
<b>Prif negeseuon</b>	<b>5</b>
<b>1. Cyflwyniad</b>	<b>10</b>
1.1 Cefndir	10
1.2 Nodau ac amcanion yr ymchwil	10
1.3 Strwythur yr adroddiad	11
<b>2. Methodoleg</b>	<b>12</b>
2.1 Cam un: arolygon o ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus	12
2.2 Cam dau: dadansoddiad eilaidd o'r data a oedd ar gael	13
2.3 Cam tri: cyfweiliadau ansoddol ag ymgeiswyr llwyddiannus, ymgeiswyr aflwyddiannus, a rhanddeiliaid	14
<b>3. Canfyddiadau</b>	<b>16</b>
3.1 Dadansoddiad o'r ceisiadau ac o ddosbarthiad y cyllid	16
3.1.1 Ceisiadau i'r Gronfa Buddsoddi i Arbed	16
3.1.2 Cyllid Buddsoddi i Arbed	18
3.1.3 Ceisiadau a chyllid y Gronfa Buddsoddi i Arbed fesul sector	20
3.1.4 Dosbarthiad y cyllid Buddsoddi i Arbed ar draws rhanbarthau	20
3.2 Cyflawni prosiectau yn erbyn y manteision a ragwelwyd	22
3.2.1 Arbedion cost y prosiectau	22
3.2.2 Gwelliannau i wasanaethau	23
3.2.3 Manteision net y prosiectau	24
3.3 Ychwanegedd cyllid Buddsoddi i Arbed	26
3.3.1 Prosiectau a ariannwyd	26
3.3.2 Prosiectau nas ariannwyd	28
3.3.3 Ffyrdd eraill o ddefnyddio'r cyllid Buddsoddi i Arbed	29

3.4 Y broses gynnig	31
3.4.1 Canfyddiadau'r arolygon	31
3.4.2 Barn ar ganllaw Llywodraeth Cymru	33
3.4.3 Trylwyredd y broses gynnig	34
3.4.4 Cryfhau prosiectau drwy'r broses gynnig	35
3.4.5 Barn rheolwyr prosiect ar wella'r broses gynnig	36
3.4.6 Barn rhanddeiliaid ar wella'r broses gynnig	36
3.5 Cydweithredu	39
3.5.1 Cydweithredu a'r Gronfa Buddsoddi i Arbed	39
3.5.2 Manteision cydweithredu	39
3.5.3 Heriau cydweithredu	40
3.5.4 Barn rhanddeiliaid ar gydweithredu	41
3.6 Yr effaith mewn sefydliadau a ariannwyd	43
3.6.1 Effeithiau cadarnhaol mewn sefydliadau a ariannwyd	43
3.6.2 Effeithiau negyddol mewn sefydliadau a ariannwyd	44
3.6.3 Ymrwymiad amser	45
3.7 Eiriolaeth ac arferion da	47
3.7.1 Eiriolaeth gan sefydliadau a ariannwyd	47
3.7.2 Eiriolaeth gan sefydliadau nas ariannwyd	48
3.7.3 Cyfraddau llog	50
3.7.4 Arferion da	50
<b>4. Argymhellion</b>	<b>52</b>
Atodiad A: Arolwg prosiectau a ariannwyd	56
Atodiad B: Arolwg prosiectau nas ariannwyd	64
Atodiad C: Canllaw testunau ar gyfer cyfweliadau â phrosiectau a ariannwyd	67
Atodiad CH: Canllaw testunau ar gyfer cyfweliadau â phrosiectau nas ariannwyd	71
Atodiad D: Canllaw testunau ar gyfer cyfweliadau â rhanddeiliaid	73

## Rhestr o dablau a ffigurau

### Tablau

Tabl 2.1:	Ymatebion fesul sector	13
Tabl 2.2:	Cyfweliadau lled-strwythuredig	14
Tabl 2.3:	Testunau a drafodwyd mewn cyfweliadau lled-strwythuredig	15
Tabl 3.1:	Cyllid Buddsoddi i Arbed, Cylchoedd Un i Bedwar	18
Tabl 3.2:	Cyfran pob sector o'r cyllid Buddsoddi i Arbed	20
Tabl 3.3:	Bodddhad defnyddwyr gwasanaeth	24
Tabl 3.4:	Manteision ac anfanteision y dull grantiau ad-daladwy	29
Tabl 3.5:	Penderfynyddion llwyddiant y Gronfa	30
Tabl 3.6:	Y broses gynnig (prosiectau a ariannwyd)	32
Tabl 3.7:	Y broses gynnig (prosiectau nas ariannwyd)	32
Tabl 3.8:	Cydweithredu	40
Tabl 3.9:	Yr effaith o fewn sefydliadau	43
Tabl 3.10:	Manteision prosiectau	45
Tabl 3.11:	Eiriolaeth ymatebwyr o brosiectau nas ariannwyd	48
Tabl 3.12:	Arferion da ar gyfer ymgeiswyr Buddsoddi i Arbed	51

### Ffigurau

Ffigur 3.1:	Statws y prosiectau	17
Ffigur 3.2:	Ceisiadau i'r Gronfa Buddsoddi i Arbed fesul cylch	18
Ffigur 3.3:	Dosbarthiad y cyllid a ddyfarnwyd (pob cylch)	19
Ffigur 3.4:	Dyfarniadau'r Gronfa Buddsoddi i Arbed	19
Ffigur 3.5:	Cyllid Buddsoddi i Arbed fesul rhanbarth a maint poblogaeth	21

## **Prif negeseuon**

### **Ceisiadau i'r Gronfa Buddsoddi i Arbed a dosbarthiad y cyllid**

- Dros bedwar cylch cyntaf y Gronfa, mae £39.5 miliwn wedi'i dalu i ymgeiswyr llwyddiannus, gyda dyfarniadau unigol yn amrywio o £62,000 i fwy na £7.3 miliwn. Cafodd y rhan fwyaf o'r prosiectau a ariannwyd (59 y cant) lai na £500,000.
- Mae nifer o'r prosiectau a gynorthwywyd wedi bod yn rhai cydweithredol; fodd bynnag, lle y gellir eu cysylltu â sector penodol, gellir nodi bod cyfanswm o £22.1 miliwn wedi'i dalu i brosiectau GIG a £12.3 miliwn wedi'i dalu i brosiectau llywodraeth leol. Mae £4.3 miliwn arall wedi'i dalu i brosiectau lle mae llywodraeth leol yn cydweithio â sectorau eraill. Mae'n bosibl fod y gwahaniaethau yn lefelau'r cyllid, yn rhannol, yn adlewyrchu'r opsiynau benthyca eraill sydd ar gael i lywodraeth leol, ond nid i'r GIG.

### **Cyflawni prosiectau yn erbyn y manteision a ragwelwyd**

- Er ei bod yn rhy gynnar i ddarparu asesiad cynhwysfawr, nid oes awgrym na fydd arbedion cost disgwylid y prosiectau a ariannwyd yn cael eu cyflawni. Mae'n argoeli'n dda am fod rhai o'r prosiectau a ariannwyd yng nghylchoedd cyntaf y Gronfa eisoes yn ad-dalu'r cymorth Buddsoddi i Arbed.
- Dywedodd y rheolwyr prosiect yn gyffredinol fod eu prosiectau hyd hynny wedi sicrhau cynifer o welliannau i wasanaethau ag a ddisgwylid ar y cychwyn, neu fwy.

## **Ychwanegedd cyllid Buddsoddi i Arbed**

- Roedd tuedd i reolwyr prosiectau a ariannwyd nodi ei bod yn anodd dweud yn bendant beth fyddai wedi digwydd i'w prosiectau heb gyllid Buddsoddi i Arbed. Fodd bynnag, mae'r rheoliadau sy'n cyfyngu ar yr opsiynau benthyca mewn gwasanaethau iechyd yn golygu bod y Gronfa Buddsoddi i Arbed yn arbennig o hanfodol i brosiectau GIG.
- Roedd y rhan fwyaf o'r prosiectau wedi'u datblygu i ryw raddau cyn cynnig am gyllid Buddsoddi i Arbed – roedd y Gronfa, yn bennaf, yn ffordd o alluogi prosiectau arfaethedig i fynd rhagddynt.
- Roedd y rhanddeiliaid a gyfwelwyd yn cytuno'n gyffredinol fod darparu cyllid Buddsoddi i Arbed yn fwy buddiol na defnyddio'r gyllideb ar gyfer ymyriadau eraill i helpu i gyflawni amcanion y cytunwyd arnynt.

## **Y broses gynnig**

- At ei gilydd roedd rheolwyr prosiectau a ariannwyd yn gadarnhaol iawn am y broses gynnig. Roedd y cyfweleion o brosiectau nas ariannwyd yn tueddu i fod yn llai cadarnhaol, gyda rhai yn meddwl bod y broses gynnig yn eithaf beichus, a bod yr amserlen i gyflwyno ceisiadau yn rhy fyr.
- Awgrymodd rhai cyfweleion y gellid cyflwyno themâu ar gyfer pob cylch cynnig, fel bod Llywodraeth Cymru yn gallu canolbwyntio ar flaenoriaethau penodol, ac ymgeiswyr yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â phriodoldeb cynnig yn y cylch hwnnw.
- Roedd rhai (ond nid pob un) o'r rhanddeiliaid yn meddwl y byddai'n syniad da cael aelod o'r tu allan i Lywodraeth Cymru ar banel swyddogion Buddsoddi i Arbed, i gael safbwynt allanol.

## **Cydweithredu**

- Mae rhanddeiliaid yn meddwl bod y Gronfa'n llwyddo i annog cydweithredu rhwng sefydliadau. Fodd bynnag, roedd rhai rhanddeiliaid yn tybio y gallai Llywodraeth Cymru wneud mwy i annog cydweithredu parhaus ar draws rhanbarthau a sectorau, ac y gallai'r Gronfa chwarae rhan bwysig yn hynny.

## **Yr effaith mewn sefydliadau a ariannwyd**

- Credid bod y prosiectau Buddsoddi i Arbed wedi arwain at fwy o effeithiau cadarnhaol nag o effeithiau negyddol yn y sefydliadau a ariannwyd.
- Dywedodd nifer o'r rheolwyr prosiect fod yr ymrwymiad amser i weithredu a chynnal y prosiect yn fwy na'r disgwyl. Roedd y rhesymau am hyn yn cynnwys gorsymleiddio'r prosiect ar y cychwyn; gwrthwynebiad mewnol gan y gweithlu; a pheidio â rhagweld y byddai'r prosiect yn datblygu ac yn tyfu.

## **Eiriolaeth ac arferion da**

- Byddai'r 22 ymatebydd i'r arolwg prosiectau a ariannwyd yn argymhell gwneud cais am gyllid o'r Gronfa Buddsoddi i Arbed i gyrff tebyg. Er na fyddai cynifer o'r ymatebwyr i'r arolwg prosiectau nas ariannwyd yn argymhell hynny, roeddent yn dal yn gadarnhaol ar y cyfan.
- Pe baent yn ymgeisio eto, dywedodd rhai cyfweleion o brosiectau nas ariannwyd y byddent yn rhoi mwy o sylw i agweddau ariannol eu cynnig, yn hytrach na dim ond canolbwyntio ar welliannau i'r gwasanaeth.

## **Argymhellion**

- Nodir saith argymhelliad, yn seiliedig ar ganfyddiadau'r ymchwil. Manylir ar sail resymegol yr argymhellion hyn yn yr adroddiad llawn.



- **Argymhelliad 1:** Mae cefnogaeth gref i barhau â'r Gronfa Buddsoddi i Arbed er mwyn helpu prosiectau ledled Cymru sy'n gwella gwasanaethau cyhoeddus ac yn rhyddhau arian parod. Felly, argymhellir comisiynu gwerthusiad annibynnol o union ganlyniadau'r prosiectau ymhen 12-18 mis (rhwng dechrau a chanol 2013).
- **Argymhelliad 2:** O ystyried y cyfyngiadau benthyca sy'n rheoli'r GIG, dylid cydnabod wrth arfarnu cynigion Buddsoddi i Arbed pa mor allweddol y gall y Gronfa fod i helpu prosiectau sy'n cynnwys y GIG.
- **Argymhelliad 3:** Mae angen parhau i annog llywodraeth leol i ymwneud â'r Gronfa, ond gan gofio bod ffynonellau eraill o gyllid ar gael i'r sector.
- **Argymhelliad 4:** Dylid parhau i ystyried nifer a gwerth y prosiectau a ariennir yng nghylchoedd y dyfodol, ac effaith hyn ar amlhau arbedion effeithlonrwydd.
- **Argymhelliad 5:** Er nad oes problemau mawr yn codi o'r broses gynnig bresennol, mae'r dystiolaeth yn awgrymu y gellid ystyried y gwelliannau canlynol:
  - a) Cyflwyno themâu ar gyfer pob cylch cynnig i dargedu blaenoriaethau penodol Llywodraeth Cymru.
  - b) Cyflwyno aelod o'r tu allan i Lywodraeth Cymru i banel swyddogion Buddsoddi i Arbed.
  - c) Sut y caiff cynigion Buddsoddi i Arbed eu harfarnu ochr yn ochr â mathau eraill o gymorth gan Lywodraeth Cymru, megis cyllid Cyfalaf a Gedwir yn Ganolog.
  - ch) Adolygu'r amserlen ar gyfer cyflwyno datganiadau o ddiddordeb.
- **Argymhelliad 6:** Dylid ymchwilio'n fanylach i ychwanegedd cyllid Buddsoddi i Arbed mewn unrhyw werthusiad annibynnol yn y dyfodol.

- **Argymhelliad 7:** Dylid ystyried ffyrdd o annog rheolwyr prosiect i hunanwerthuso'u prosiectau, gyda chymorth ar ffurf canllaw a/neu ddulliau a thechnegau safonedig, i ddangos manteision ac arbedion.

# **1. Cyflwyniad**

## **1.1 Cefndir**

Cyflwynwyd y Gronfa Buddsoddi i Arbed gan Lywodraeth Cymru ym Mai 2009. Nod y Gronfa yw helpu prosiectau gwella sector cyhoeddus a fydd yn arwain at arbedion effeithlonrwydd sylweddol ac yn rhyddhau arian parod drwy ddarparu gwasanaethau effeithiol sy'n canolbwyntio ar y dinesydd. Rhaid ad-dalu'r holl fuddsoddiadau o'r Gronfa, ond ni chodir llog ac mae'r cyfnod ad-dalu'n hyblyg.

Cytunodd panel swyddogion Buddsoddi i Arbed mewn egwyddor y gallai fod angen cynnal gwerthusiad annibynnol o brosiectau'r Gronfa Buddsoddi i Arbed yn y dyfodol, pan fyddai mwy yn cael eu cyflawni a sylfaen dystiolaeth gyfoethocach ar gael o ran canlyniadau. Yn y cyfamser, comisiynodd y panel werthusiad bach interim a fyddai'n cael ei gyflawni'n fewnol gan ddadansoddwyr Llywodraeth Cymru, ac y byddai ei ganfyddiadau yn sylfaen i ofynion unrhyw werthusiad yn y dyfodol.

## **1.2 Nodau ac amcanion yr ymchwil**

Nod y gwerthusiad interim yw ystyried y cynnydd sy'n cael ei wneud gan y Gronfa a chan y prosiectau a gynorthwywyd; tynnu sylw at unrhyw wersi sy'n cael eu dysgu o ran gweithredu a gweinyddu; a nodi themâu ac ystyriaethau ar gyfer unrhyw werthusiad o'r Gronfa yn y tymor hwy. Yn benodol, nod y gwerthusiad interim hwn yw rhoi cipolwg ar:

- Y cynnydd tuag at gyflawni'r manteision a ragwelwyd, gan gynnwys arbedion effeithlonrwydd;
- Effaith y prosiectau a ariannwyd ar y sefydliadau a ymgeisiodd ac ar wella'r sector cyhoeddus yn ehangach;
- Natur a maint y prosiectau a ariannwyd a dosbarthiad y cymorth ar draws Cymru a'r sector cyhoeddus;

- Sut y gweithredir ac y gweinyddir y Gronfa (gan gynnwys gorbenion gweinyddol Llywodraeth Cymru a buddiolwyr y Gronfa);
- Manteision a/neu anfanteision y dull grantiau ad-daladwy fel cymhelliad i newid o gymharu ag opsiynau ariannu eraill; a
- Profiad yr ymgeiswyr, gan gynnwys y rhai a gynigiodd yn aflwyddiannus.

### **1.3 Strwythur yr adroddiad**

Mae gweddill yr adroddiad hwn wedi'i rannu'n dair pennod. Ym Mhennod 2, amlinellir methodoleg yr ymchwil. Mae Pennod 3 – rhan helaethaf yr adroddiad – yn cyflwyno canfyddiadau'r gwerthusiad interim, ac yn trafod:

- Y dadansoddiad o'r ceisiadau ac o ddsbarthiad y cyllid
- Cyflawni prosiectau yn erbyn y manteision a ragwelwyd
- Ychwanegedd cyllid Buddsoddi i Arbed
- Y broses gynnig
- Cydweithredu
- Yr effaith mewn sefydliadau a ariannwyd
- Eiriolaeth ac arferion da

Ceir crynodeb o'r prif ganfyddiadau ar ddechrau pob is-ran o Bennod 3. Yn olaf, mae Pennod 4 yn cloi'r gwerthusiad interim ac yn nodi argymhellion yn seiliedig ar ganfyddiadau'r ymchwil.

## 2. Methodoleg

Ystyriodd y gwerthusiad interim bedwar cylch ariannu cyntaf y rhaglen Buddsoddi i Arbed, ac fe'i rhannwyd yn dri cham:

- Cam un: arolygon o ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus.
- Cam dau: dadansoddiad eilaidd o'r data a oedd ar gael.
- Cam tri: cyfweiliadau ansoddol ag ymgeiswyr llwyddiannus, ymgeiswyr aflwyddiannus, a rhanddeiliaid.

Isod, trafodir methodoleg y camau hyn yn eu tro.

### 2.1 Cam un: arolygon o ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus

Cynhaliwyd arolygon ar-lein, gan ddefnyddio gwasanaeth arolygon ar-lein Questback, i gasglu barn rheolwyr o brosiectau a ariannwyd ac nas ariannwyd (gweler Atodiadau A a B). Datblygwyd dau holiadur gwahanol, i gasglu barn ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus i'r Gronfa.

Ar ôl datblygu holiaduron yr arolwg, cymerodd tri ymatebydd – a ddewiswyd am fod eu rolau neu eu profiadau o'r Gronfa yn wahanol – ran mewn peilot yng Ngorffennaf 2011. Ar ôl gwneud mân newidiadau, cyflawnwyd gwaith maes yr arolygon dros dair wythnos, o 5 i 23 Medi 2011.

Ar y cychwyn, roedd nifer yr ymatebion yn wael. I fynd i'r afael â hyn, penderfynwyd cynnal arolwg ffôn yn ogystal â'r arolwg ar-lein, i gael mwy o ymatebion. Llwyddodd hyn i gynyddu nifer yr ymatebion i'r arolwg prosiectau a ariannwyd, a gafodd **22 ymateb** gan y 48 o brosiectau a ariannwyd (cyfradd ymateb o 46 y cant). Cafodd yr arolwg prosiectau nas ariannwyd **naw ymateb** gan y 127 o brosiectau nas ariannwyd – nifer fach ond nid annisgwyl o gofio

gwerthusiad 2002 Trysorlys EM o'r Gyllideb Buddsoddi i Arbed, a gafodd ddeg ymateb gan 265 o ymgeiswyr aflwyddiannus<sup>1</sup>.

Ceir proffil o'r ymatebwyr fesul sector yn Nhabl 2.1 (isod).

<b>Tabl 2.1: Ymatebion fesul sector</b>		
	<b>Nifer yr ymatebion</b>	
<b>Sector</b>	<b>Arolwg prosiectau a ariannwyd</b>	<b>Arolwg prosiectau nas ariannwyd</b>
Llywodraeth Leol	11	2
Iechyd	8	5
Arall	2	2
CYFANSWM	22	9
<i>Ffynhonnell: Yr arolwg o brosiectau a ariannwyd a'r arolwg o brosiectau nas ariannwyd</i>		

Aethpwyd ati i goladu a dadansoddi ymatebion yr arolygon i gael canfyddiadau perthnasol a sylweddol y gellid eu trafod ymhellach yn y cyfweiliadau ansoddol dilynol.

## **2.2 Cam dau: dadansoddiad eilaidd o'r data a oedd ar gael**

Roedd y cam hwn yn cynnwys dadansoddi'r data a oedd ar gael ar geisiadau llwyddiannus ac aflwyddiannus gan brosiectau i bedwar cylch cyntaf y Gronfa Buddsoddi i Arbed – cafwyd y rhan fwyaf o'r data o gronfa ddata Cronfa Buddsoddi i Arbed Llywodraeth Cymru. O ganlyniad, gellid darparu proffil meintiol sylfaenol:

- o nifer a gwerth y prosiectau a gyllidwyd;
- o ddsbarthiad y ceisiadau ar draws meysydd gwasanaeth a rhanbarthau'r sector cyhoeddus; ac
- o fanylion y cyllid ar draws sectorau a rhanbarthau gwasanaethau cyhoeddus.

<sup>1</sup> SQW Ltd (ar y cyd â MORI). 2002. *Programme Evaluation of the Invest to Save Budget*. Llundain: Trysorlys EM.

### 2.3 Cam tri: cyfweiliadau ansoddol ag ymgeiswyr llwyddiannus, ymgeiswyr aflwyddiannus, a rhanddeiliaid

Roedd y cam hwn yn cynnwys cyfweiliadau lled-strwythuredig â sampl o gynrychiolwyr a ddetholwyd yn bwrpasol o blith:

- sefydliadau a ariannwyd;
- ymgeiswyr aflwyddiannus;
- aelodau panel swyddogion Buddsoddi i Arbed; a
- rhanddeiliaid perthnasol eraill.

Cynhaliwyd **20 o gyfweiliadau** i gyd (gweler Tabl 2.2). Diben y cyfweiliadau oedd ymchwilio'n fanylach i'r themâu, y cwestiynau a'r materion pwysig a godai o ganfyddiadau'r arolygon, a rhoi eu cywirdeb ar brawf. Am eu bod yn lled-strwythuredig, roedd cyfle hefyd i drafod materion na nodwyd ymlaen llaw neu faterion na sylwyd arnynt pan gynhaliwyd yr arolwg ar-lein.

	<b>Nifer y cyfweiliadau</b>
Prosiectau a ariannwyd	6
Prosiectau nas ariannwyd (a dynnwyd yn ôl)	3
Prosiectau nas ariannwyd (a wrthodwyd)	3
Rhanddeiliaid	8
<b>CYFANSWM</b>	<b>20</b>

Roedd y rhan fwyaf o'r cyfweiliadau yn rhai wyneb yn wyneb, ond lle nad oedd hynny'n bosibl fe'u cynhaliwyd dros y ffôn. Cynhaliwyd y cyfweiliadau gan dîm o bedwar ymchwilydd cymdeithasol o Wasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru.

Paratowyd tri chanllaw gwahanol yn nodi testunau'r cyfweiliadau ar gyfer: prosiectau a ariannwyd; prosiectau nas ariannwyd; a rhanddeiliaid (gweler Atodiadau C, CH a D). Nodir y testunau a drafodwyd yn fanwl yn y cyfweiliadau yn Nhabl 2.3 isod.

<b>Tabl 2.3: Testunau a drafodwyd mewn cyfweiliadau lled-strwythuredig</b>			
<b>Testun</b>	<b>Prosiectau a ariannwyd</b>	<b>Prosiectau nas ariannwyd</b>	<b>Rhanddeiliaid</b>
Gwreiddiau'r prosiect	.	.	
Y broses gynnig	.	.	.
Cydweithredu	.		.
Manteision ac anfanteision y prosiect	.		
Ychwanegedd	.	.	.
Effeithiau ehangach	.		.
Arferion gorau	.	.	
Eiriolaeth	.	.	
Llwyddiant y Gronfa			.

Ym mhob cyfweiliad, eglurwyd y byddai'r cyfweiliad yn cael ei recordio ar dâp sain i sicrhau trawsgrifio a dadansoddi cywir. Rhoddwyd sicrwydd i'r cyfweleion y byddai eu hatebion yn gyfrinachol ac na chaent eu henwi yng nghanfyddiadau'r adroddiad. Cynhaliwyd y cyfweiliadau yn Hydref a Thachwedd 2011.



### 3. Canfyddiadau

#### 3.1 Dadansoddiad o'r ceisiadau ac o ddsbarthiad y cyllid

##### Prif ganfyddiadau

- Dros bedwar cylch cyntaf y Gronfa Buddsoddi i Arbed, mae tua chwarter y ceisiadau wedi bod yn llwyddiannus.
- Ers Cylch Un, mae nifer y ceisiadau wedi gostwng ym mhob cylch ond ymddengys bod nifer y ceisiadau llwyddiannus yn gwastatáu. Gellid priodoli'r gostyngiad yn nifer y ceisiadau yn rhannol i'r ffaith fod trothwy sylfaenol o £100,000 wedi'i gyflwyno ar gyfer gwerth prosiectau yn dilyn Cylch Dau.
- Mae £39.5 miliwn wedi'i dalu i ymgeiswyr llwyddiannus dros bedwar cylch cyntaf y Gronfa, gyda dyfarniadau unigol yn amrywio o £62,000 i fwy na £7.3 miliwn. Cafodd y rhan fwyaf o'r prosiectau a ariannwyd (59 y cant) lai na £500,000.
- Y GIG a gyflwynodd y nifer fwyaf o geisiadau (106), ac yna llywodraeth leol (52, gan gynnwys y rhai sy'n cynnwys partneriaid o sectorau eraill). I gyd, mae £22.1 miliwn wedi'i dalu i brosiectau GIG o gymharu â £16.6 miliwn ar gyfer prosiectau'n cynnwys llywodraeth leol. Mae'n bosibl fod hyn, yn rhannol, yn adlewyrchu'r opsiynau benthyca eraill sydd ar gael i lywodraeth leol, ond nid i'r GIG.


##### 3.1.1 Ceisiadau i'r Gronfa Buddsoddi i Arbed

Mae Ffigur 3.1 (isod) yn dangos manylion y ceisiadau a'r cyllid a ddyfarnwyd.

Mae'n dangos:

- bod tua chwarter o'r holl geisiadau i'r Gronfa wedi bod yn llwyddiannus;
- bod tua hanner y ceisiadau wedi'u gwrthod; ac
- mai Cylchoedd Dau a Phedwar oedd â'r gyfran uchaf o geisiadau llwyddiannus, gyda rhyw bedwar cais o bob deg yn cael cyllid.

**Ffigur 3.1: Statws y prosiectau**




*Ffynhonnell: Cronfa ddata'r Gronfa Buddsoddi i Arbed, Llywodraeth Cymru (2011)*

Mae Ffigur 3.2 (isod) yn siartio nifer y ceisiadau i'r Gronfa dros y pedwar cylch cyntaf, ac yn dangos bod llawer ohonynt wedi llwyddo. Cafwyd 100 o geisiadau yng Nghylch Un – mwy nag yn y tri chylch dilynol gyda'i gilydd. Fodd bynnag, dim ond 20 o'r ceisiadau hynny oedd yn llwyddiannus.

Ers Cylch Un, mae nifer y ceisiadau wedi gostwng ym mhob cylch, ond ymddengys bod nifer y ceisiadau llwyddiannus yn gwastatáu. Gellid priodoli'r gostyngiad yn nifer y ceisiadau yn rhannol i'r ffaith fod trothwy sylfaenol o £100,000 wedi'i gyflwyno ar gyfer gwerth prosiectau yn dilyn Cylch Dau – penderfyniad a wnaethpwyd gan banel swyddogion Buddsoddi i Arbed, i annog mwy o bwyslais ar brosiectau strategol ac i wella gwerth am arian.

**Ffigur 3.2: Ceisiadau i'r Gronfa Buddsoddi i Arbed fesul cylch**



*Ffynhonnell: Cronfa ddata'r Gronfa Buddsoddi i Arbed, Llywodraeth Cymru (2011)*

### 3.1.2 Cyllid Buddsoddi i Arbed

Fel y dengys Tabl 3.1, mae **£39.5 miliwn** wedi'i dalu i ymgeiswyr llwyddiannus, gyda dyfarniadau unigol yn amrywio o £62,000 i fwy na £7.3 miliwn. Dangosir y cyfartaleddau cymedrig a chanolrifol hefyd.


<b>Tabl 3.1: Cyllid Buddsoddi i Arbed, Cylchoedd Un i Bedwar</b>				
<b>Lleiaf</b>	<b>Mwyaf</b>	<b>Cymedr</b>	<b>Canolrif</b>	<b>CYFANSWM</b>
£62,000	£7,314,000	£857,909	£347,500	£39,463,816

*Ffynhonnell: Cronfa ddata'r Gronfa Buddsoddi i Arbed, Llywodraeth Cymru (2011)*

Mae Ffigur 3.3 yn dangos nifer y prosiectau y talwyd gwahanol lefelau o gyllid iddynt. Cafodd y rhan fwyaf o'r prosiectau (59 y cant) lai na £500,000 o gyllid<sup>2</sup>, ond ar ben uchaf y raddfa, cafodd pump o brosiectau £3 miliwn neu fwy.

<sup>2</sup> O'r 27 o brosiectau a gafodd lai na £500,000 o gyllid, roedd 17 wedi cael cyllid yng Nghylchoedd Un a Dau, cyn cyflwyno'r trothwy sylfaenol o £100,000 ar gyfer gwerth prosiectau.


**Ffigur 3.3: Dosbarthiad y cyllid a ddyfarnwyd (pob cylch)**



Ffynhonnell: Cronfa ddata'r Gronfa Buddsoddi i Arbed, Llywodraeth Cymru (2011)

Mae Ffigur 3.4, isod, yn dangos y cyfansymiau a'r symiau cyfartalog a fuddsoddwyd gan y Gronfa dros y cylchoedd. Cafwyd y cyfanswm mwyaf yng Nghylch Dau, sef £17.7 miliwn.

**Ffigur 3.4: Dyfarniadau'r Gronfa Buddsoddi i Arbed**



Ffynhonnell: Cronfa ddata'r Gronfa Buddsoddi i Arbed, Llywodraeth Cymru (2011)

### 3.1.3 Ceisiadau a chyllid y Gronfa Buddsoddi i Arbed fesul sector

Y GIG a gyflwynodd y nifer fwyaf o geisiadau (106 o geisiadau), ac yna llywodraeth leol (52 o geisiadau, gan gynnwys tri â phartneriaid o sectorau eraill). Fodd bynnag, mae niferoedd y ceisiadau llwyddiannus yn agosach o lawer – 23 i'r GIG a 21 i Lywodraeth Leol (gan gynnwys dau brosiect â phartneriaid o sectorau eraill).

Mae Tabl 3.2, isod, yn dangos dosbarthiad y cyllid Buddsoddi i Arbed fesul sector. Aeth dros hanner y cyllid a fuddsoddwyd (56 y cant) i brosiectau GIG – £22.1 miliwn i gyd. Talwyd cyfanswm o 42 y cant o'r cyllid (£16.6 miliwn) i lywodraeth leol, neu i brosiectau llywodraeth leol a phartner.

	<b>Cyllid a ddyfarnwyd</b>	<b>% o gyfanswm y cyllid</b>
GIG	£22,074,641	56%
Llywodraeth Leol	£12,287,225	31%
Llywodraeth Leol a phartneriaid	£4,263,000	11%
Arall (gan gynnwys Addysg Uwch)	£838,950	2%
<b>CYFANSWM</b>	<b>£39,463,816</b>	<b>100%</b>

*Ffynhonnell: Cronfa ddata'r Gronfa Buddsoddi i Arbed, Llywodraeth Cymru (2011)*

### 3.1.4 Dosbarthiad y cyllid Buddsoddi i Arbed ar draws rhanbarthau

O'r £39.5 miliwn o gyllid a ddarparwyd, buddsoddwyd £10.4 miliwn mewn prosiectau a oedd yn ymdrin â Chymru gyfan neu nifer o ranbarthau. Ar wahân i'r prosiectau Cymru gyfan ac amlranbarth, cafodd prosiectau yng Ngwent fwy o gyllid na rhanbarthau eraill (£12.8 miliwn), a phrosiectau yng Nghwm Taf a gafodd y lleiaf (£800,000)<sup>3</sup>.


Am fod gwahaniaeth ym maint poblogaeth rhanbarthau Cymru, mae Ffigur 3.5 (isod) yn dangos mor agos y mae'r gyfran o'r cyllid a roddwyd i bob rhanbarth

<sup>3</sup> Dylid pwysleisio *nad yw* targedu cyllid yn ddaearyddol yn rhan o feini prawf y Gronfa Buddsoddi i Arbed.

(ar wahân i brosiectau Cymru gyfan ac amlranbarth) yn cyfateb i gyfran y rhanbarth hwnnw o'r boblogaeth. Mae'n dangos:

- bod y gyfran o'r cyllid rhanbarthol a dalwyd i Ogledd Cymru a Bae Abertawe yn cyfateb yn agos i'w cyfran o'r boblogaeth;
- bod y gyfran o'r cyllid rhanbarthol a dalwyd i Went yn llawer mwy na chyfran y rhanbarth o'r boblogaeth<sup>4</sup>; a
- bod y gyfran o'r cyllid rhanbarthol a dalwyd i'r Canolbarth a'r Gorllewin, i Gaerdydd a'r Fro ac i Gwm Taf yn llawer is na'u cyfran o'r boblogaeth.

Dylid pwysleisio eto *nad* yw targedu cyllid yn ddaearyddol yn rhan o feini prawf y Gronfa Buddsoddi i Arbed.



<sup>4</sup> Ond mae'r ffigur hwn wedi'i gamystumio'n fawr gan y £7.3m a fuddsoddiwyd ym Mhrosiect Llesgedd Gwent – y prosiect mwyaf ym mhedwar cylch cyntaf y Gronfa.

<sup>5</sup> Nid yw'n cynnwys prosiectau Cymru gyfan ac amlranbarth.

## 3.2 Cyflawni prosiectau yn erbyn y manteision a ragwelwyd

### Prif ganfyddiadau

- Er ei bod yn rhy gynnar i ddarparu asesiad cynhwysfawr, nid oes awgrym na fydd arbedion cost disgwylid y prosiectau a ariannwyd yn cael eu cyflawni. Mae'n argoeli'n dda am fod rhai o'r prosiectau a ariannwyd yng nghylchoedd cyntaf y Gronfa eisoes yn ad-dalu'r cymorth Buddsoddi i Arbed.
- Dywedodd y rheolwyr prosiect yn gyffredinol fod eu prosiectau hyd hynny wedi sicrhau cynifer o welliannau i wasanaethau ag a ddisgwylid ar y cychwyn, neu fwy.
- Ym marn rheolwyr y rhan fwyaf o'r prosiectau, mae manteision cyffredinol eu prosiectau yn gorbwyso unrhyw anfanteision yn sylweddol.

### 3.2.1 Arbedion cost y prosiectau

Yn arolygon a chyfweliadau rheolwyr y prosiectau a ariannwyd, holwyd a oedd arbedion cost eu prosiectau yn cyfateb i'r hyn a ddisgwylid ar y cychwyn. Dywedodd rheolwyr nifer o brosiectau ei bod yn rhy gynnar i ddweud a oedd yr arbedion cost disgwylid yn cael eu cyflawni. Roedd eraill yn hyderus fod yr arbedion cost yn cael eu cyflawni.

Roedd un cyfwelai yn meddwl bod y prosiect yn cyflawni mwy o arbedion arian parod na'r disgwyl, ond dywedodd ei bod yn anodd priodoli'r arbedion ychwanegol yn uniongyrchol i'r prosiect. Dywedodd un arall eu bod ychydig y tu ôl i'r targedau rhagamcanol ond eu bod yn disgwyl i bethau wella pan fyddai manteision cydweithredu yn cael eu cyflawni'n llawnach:

“Yn y tymor byr, mae'n debyg y bydd ychydig yn llai [o arbedion arian parod na'r disgwyl], ond rwy'n disgwyl i hynny ddal i fyny a gwella achos – y problemau sydd wedi deillio o beidio â chyflawni holl fanteision cydweithredu – bydd hynny'n gwella yn nes ymlaen.” **(Prosiect a ariannwyd, Cymru gyfan)**

Yn gyson â barn rheolwyr y prosiectau a ariannwyd, roedd y rhanddeiliaid a gyfwelwyd yn cytuno'n gyffredinol ei bod yn rhy gynnar ym modolaeth y

Gronfa i ddweud a fyddai pob prosiect yn llwyddo i gyflawni'r holl arbedion effeithlonrwydd rhagamcanol i ryddhau arian parod. Fodd bynnag, dywedodd rhai rhanddeiliaid ei bod yn argoeli'n dda am fod rhai o'r prosiectau a ariannwyd yng nghylchoedd cyntaf y Gronfa yn dechrau cyflawni arbedion:

“[Mae'n] rhy gynnar i ddweud. Mae rhai yn dechrau ad-dalu, sy'n beth da. Mae rhywfaint o waith wedi'i gyflawni i werthuso'r prosiectau ac nid oes rheswm i ddweud nad yw'r prosiectau ar y trywydd iawn [...] I roi ateb mwy pendant, mae angen cyfnod hwy i edrych yn ôl arno.” **(Rhanddeiliad, Llywodraeth Cymru)**

“Anodd dweud, ond maen nhw yn elwa ar y buddsoddiad. Dydw i ddim yn siŵr faint o werth sy'n cael ei wasgu allan. [...] Mae'n amlwg bod momentwm wedi'i greu ond mae'r arbedion yn llai eglur.” **(Rhanddeiliad, allanol)**

Fodd bynnag, roedd un rhanddeiliad o Lywodraeth Cymru yn meddwl y gallai fod yn anodd asesu llwyddiant prosiectau ar ôl iddynt dderbyn cyllid, y tu allan i banel swyddogion Buddsoddi i Arbed:

“I'r mwyafrif ohonom ar draws y swyddfa, bydd prosiectau'n diflannu o dan y dyfroedd ar ôl cael cyllid [...] Dw i ddim yn gwybod digon am yr hyn sy'n digwydd iddynt.” **(Rhanddeiliad, Llywodraeth Cymru)**

Yn gyffredinol, er ei bod yn rhy gynnar i ddarparu asesiad cynhwysfawr, nid awgrymodd y rheolwyr prosiect na'r rhanddeiliaid na fyddai'r arbedion cost disgwylidig yn cael eu cyflawni – ac mae'n argoeli'n dda am fod rhai prosiectau a ariannwyd yng nghylchoedd cyntaf y Gronfa eisoes yn ad-dalu'r cymorth Buddsoddi i Arbed.

### **3.2.2 Gwelliannau i wasanaethau**

Er ei bod yn rhy gynnar yn gyffredinol i asesu arbedion arian parod eu prosiectau hyd hynny, roedd y rheolwyr prosiect yn fwy hyderus wrth asesu'r arbedion heb fod yn arian parod a'r gwelliannau i wasanaethau.



O ran asesu gwelliannau, holwyd ymatebwyr i'r arolwg prosiectau a ariannwyd a oeddent wedi ymgynghori â defnyddwyr gwasanaeth am eu boddhad â'r gwasanaeth ers i'r prosiect ddechrau. Fel y dengys Tabl 3.3 (isod), dywedodd wyth o'r 22 ymatebydd eu bod wedi ymgynghori â defnyddwyr gwasanaeth, a dywedodd 12 eu bod yn bwriadu ond heb ddechrau eto.

<b>Tabl 3.3: Boddhad defnyddwyr gwasanaeth</b>				
	<b>Ydym</b>	<b>Ddim eto, ond yn bwriadu</b>	<b>Nac ydym, a ddim yn bwriadu</b>	<b>Amherthnasol</b>
A ydych wedi ymgynghori â'r defnyddwyr gwasanaeth am lefelau eu boddhad â'r gwasanaeth ers i'r prosiect ddechrau?	8	12	1	1
<i>Ffynhonnell: Arolwg prosiectau a ariannwyd</i>				

Roedd y cyfweiliadau ansoddol dilynol yn awgrymu bod y broses o fonitro barn defnyddwyr gwasanaeth yn tueddu i fod yn barhaus, ac i ddigwydd drwy sianelau megis ymgynghoriadau ac adborth, ac ymgysylltu anffurfiol beunyddiol.

“Cysyllton ni â [gwahanol gyrff cynrychiadol] i gael amcan o anghenion a blaenoriaethau'r [defnyddwyr gwasanaeth], a defnyddiwyd yr wybodaeth wrth gynllunio'r prosiect. Dyna sut y dechreuon ni'r prosiect. Ers i'r prosiect ddechrau, mae ffordd i [ddefnyddwyr gwasanaeth] roi adborth inni'n barhaus.” **(Prosiect a ariannwyd, Caerdydd a'r Fro)**

“Rhoddir ffurflen werthuso i [ddefnyddwyr gwasanaeth] ei chwblhau. Hefyd, fel rheolwr prosiect, af i lawr yn aml i sgwrsio â phobl – wyneb yn wyneb, cewch amcan o'r pethau na fyddent o bosibl yn eu hysgrifennu.” **(Prosiect a ariannwyd, Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

### **3.2.3 Manteision net y prosiectau**

Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn sicr iawn fod manteision eu prosiectau yn gorbwyso'r anfanteision:

- roedd 18 o'r ymatebwyr yn cytuno bod y manteision yn gorbwysu'r anfanteision *yn sylweddol*;
- roedd 2 yn cytuno bod y manteision a'r anfanteision yn weddol gyfartal;
- nid atebodd 2.

Roedd y rhesymau dros nodi bod y manteision yn gorbwysu'r anfanteision yn cynnwys bod cymhlethdod cyflawni'r prosiect yn bris bach i'w dalu o ystyried y manteision hirdymor:

“Mae'r manteision amrywiol a gweladwy [...] a'r effeithlonrwydd sy'n deillio o weithredu'r prosiect yn gorbwysu'r cymhlethdod yn aruthrol.” **(Prosiect a ariannwyd, Caerdydd a'r Fro)**

“Mae wedi galluogi newid diwylliannol aruthrol mewn arferion aml-driniaethol ledled Cymru. Mae Cymru wedi cael sylw ar y llwyfan rhyngwladol oherwydd ei Rhaglen Iwyddiannus. Mae cannoedd o gleifion wedi elwa, a bydd y cannoedd yn troi'n filoedd cyn bo hir.” **(Prosiect a ariannwyd, Cymru gyfan)**

Awgrymodd rhai cyfweleion fod manteision net eu prosiectau, yn rhannol, yn ganlyniad i nodi potensial am welliannau pellach:

“Mae'r [gwelliannau i'r gwasanaeth] wedi bod yn fwy na'r disgwyl. Yn ystod y prosiect cawsom ein hunain yn ysgwyddo llawer mwy nag yr oeddem wedi'i ddisgwyl yn yr ymarfer cwmpasu cychwynnol. Mae'r adborth a gawsom yn ddigymell gan ddefnyddwyr gwasanaeth wedi bod yn ardderchog.” **(Prosiect a ariannwyd, Caerdydd a'r Fro)**

### 3.3 Ychwanegedd cyllid Buddsoddi i Arbed

#### Prif ganfyddiadau

- Roedd tuedd i reolwyr prosiectau a ariannwyd nodi ei bod yn anodd dweud yn bendant beth fyddai wedi digwydd i'w prosiectau heb gyllid Buddsoddi i Arbed – ond y gallai fod wedi bod yn anodd dod o hyd i gyllid o rywle arall.
- Mae'r opsiynau benthyca eraill sydd ar gael i lywodraeth leol, ond nid i'r GIG, yn golygu bod y Gronfa Buddsoddi i Arbed yn arbennig o hanfodol i brosiectau GIG. Roedd yn amlwg bod prosiectau GIG na chafodd gymorth yn llawer llai tebygol o fynd rhagddynt na'r rhai llywodraeth leol na chafodd gymorth.
- Roedd y rhan fwyaf o'r prosiectau wedi'u datblygu i ryw raddau cyn cynnig am gyllid Buddsoddi i Arbed – roedd hyn yn amrywio o fod â syniad bras am yr hyn y gellid ei wneud i wella gwasanaeth, i ddatblygu cynllun busnes manwl. Yn bennaf, roedd y Gronfa yn galluogi cynlluniau arfaethedig i fynd rhagddynt yn hytrach nag yn ysgogi syniadau am brosiectau newydd.
- Roedd y rhanddeiliaid a gyfwelwyd yn cytuno'n gyffredinol y byddai'n fwy buddiol cadw'r Gronfa Buddsoddi i Arbed na defnyddio'r arian ar gyfer ymyriadau eraill. Fodd bynnag, roedd rhai o'r pryderon a godwyd gan rhanddeiliaid yn cynnwys yr argraff fod nifer y cynigion gan lywodraeth leol yn isel (er gwaethaf ymdrechion mawr Llywodraeth Cymru i hyrwyddo'r Gronfa); ac amheuaeth ynghylch ychwanegedd y prosiectau llai a ariannwyd.

#### 3.3.1 Prosiectau a ariannwyd

Roedd tuedd i nifer o reolwyr prosiectau a ariannwyd nodi ei bod yn anodd dweud yn bendant beth fyddai wedi digwydd i'w prosiectau heb gyllid Buddsoddi i Arbed. Nododd rhai y byddai eu prosiectau wedi bod yn llai tebygol o fynd rhagddynt – y prif reswm oedd y byddai wedi bod yn anodd dod o hyd i ffynonellau eraill o gyllid. Oherwydd y cyfyngiadau benthyca a wynebwr gan gyrff y GIG, roedd cael cyllid drwy Fuddsoddi i Arbed yn bwysig iawn i rai prosiectau iechyd, fel y nododd rheolwr un prosiect iechyd:

“Oni bai am Fuddsoddi i Arbed, [ni fyddem] lle'r ydym heddiw. Mae wedi bod yn gwbl hanfodol.” (**Prosiect a ariannwyd, Gogledd Cymru**)

Nododd rheolwyr prosiectau eraill (prosiectau nad oedd yn ymwneud ag iechyd) ei bod yn bosibl y gallai eu prosiectau fod wedi mynd rhagddynt ar raddfa lai, neu y gallai fod wedi cymryd mwy o amser i'w cychwyn:

“Mae'n anodd iawn dweud. Yn fwy na thebyg, byddai wedi mynd rhagddo ar raddfa lai. Neu, mae'n bosibl y gallai fod wedi mynd rhagddo ar yr un raddfa, ond byddem wedi gorfod mynd at gyllidwyr eraill.” **(Prosiect a ariannwyd, Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Pan holwyd ynghylch rhagolygon y prosiect yn y tymor hwy ar ôl ad-dalu'r cyllid Buddsoddi i Arbed, dywedodd bron pob rheolwr prosiect a gwblhaodd arolwg ac a gyfwelwyd fod eu prosiectau'n debygol o barhau neu o gael eu prif-ffrydio yn y gwasanaethau arferol.

Yn gyffredinol, roedd y rhanddeiliaid yn sicr fod Buddsoddi i Arbed wedi helpu prosiectau na fyddai wedi mynd rhagddynt fel arall (yn enwedig prosiectau mwy eu gwerth), neu a fyddai wedi mynd rhagddynt ar raddfa lai oherwydd yr hinsawdd ariannol:

“Rwy'n credu y byddai nifer o brosiectau wedi mynd rhagddynt, ond yn llawer arafach ac ar ffurf ychydig yn wahanol, yn enwedig am fod cyllidebau'n llai.” **(Rhanddeiliad, allanol)**

“Wn i ddim am brosiectau unigol, ond mae gen i deimlad na fyddai rhai wedi mynd rhagddynt. [...] Mae'n bosibl y byddai eraill wedi mynd rhagddynt, ond heb y ffocws cenedlaethol hwnnw arnynt. Felly, byddem yn colli'r gwersi, yr arferion gorau a'r trosglwyddadwyedd.” **(Rhanddeiliad, Llywodraeth Cymru)**

Fodd bynnag, cydnabuwyd hefyd y gallai fod yn anodd asesu ychwanegedd cyllid Buddsoddi i Arbed heb senarios gwrthffeithiol i gymharu â hwy:

“Mae'n anodd gwybod ar lawr gwlad, yn enwedig am fod y gwrthffeithiol ar gyfer pob prosiect yn [anhysbys]. Mae'n anodd gwybod beth fyddai wedi digwydd yn absenoldeb y Gronfa.” **(Rhanddeiliad, Llywodraeth Cymru)**

Dywedodd y rhan fwyaf o'r rheolwyr fod eu prosiectau wedi'u datblygu i ryw raddau cyn cynnig am gyllid Buddsoddi i Arbed – roedd hyn yn amrywio o fod â syniad bras am yr hyn y gellid ei wneud i wella gwasanaeth, i ddatblygu cynllun busnes manwl. Mae hyn yn awgrymu bod y cyllid Buddsoddi i Arbed, yn bennaf, wedi galluogi prosiectau arfaethedig i fynd rhagddynt, yn hytrach nag ysgogi syniadau newydd. Fodd bynnag, lle nad oedd ond syniad bras am brosiect, gallai cyhoeddi cyllid Buddsoddi i Arbed sbarduno gweithredu.

### **3.3.2 Prosiectau nas ariannwyd**

O ran y prosiectau a wrthodwyd neu a dynnwyd yn ôl ar ôl cynnig am gyllid Buddsoddi i Arbed, roedd y canlyniadau'n amrywio. Aeth nifer rhagddynt heb newid (neu ar raddfa debyg); ataliwyd rhai; ac mae eraill yn dal i aros am benderfyniad. O'r prosiectau a aeth rhagddynt heb newid, daeth y rhan fwyaf o hyd i gyllid yng nghyllidebau mewnol eu sefydliad, er y bu'n rhaid cwtogi mewn meysydd eraill:

“Mae'r prosiect wedi parhau. Roedd yn golygu bod yn rhaid i ni fenthyg mwy o'r arian [o rywle arall] i gyflawni'r prosiect.” **(Prosiect nas ariannwyd, Gogledd Cymru)**

“Mae'n symud yn ei flaen ac rydym wedi gorfod dod o hyd i ffordd arall o ariannu'r gwariant cychwynnol yn lleol. Ond mae wedi parhau ar yr un raddfa.” **(Prosiect nas ariannwyd, Bae Abertawe)**

Dywedodd dau gyfwelai – y ddau o gyrff y GIG – nad oedd eu prosiectau wedi cychwyn o gwbl ar ôl i'w cynnig am gyllid Buddsoddi i Arbed gael ei wrthod. Mae hynny'n adlewyrchu'r cyfyngiadau ariannol sy'n atal gwasanaethau iechyd rhag benthyca o ffynonellau eraill (yn wahanol i lywodraeth leol):

“Heb y staff ychwanegol y byddem wedi'u cael gyda'r cyllid, mae wedi bod yn amhosibl rhoi'r [prosiect] ar waith.” **(Prosiect nas ariannwyd, Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

“A dweud y gwir, mae wedi syrthio'n fflat. Nid oedd yn bosibl i ni fuddsoddi ynddo'n fewnol.” **(Prosiect nas ariannwyd, Caerdydd a'r Fro)**

### 3.3.3 Ffyrdd eraill o ddefnyddio'r cyllid Buddsoddi i Arbed

Gofynnwyd i randdeiliaid ar beth arall y gellid gwario adnoddau i sbarduno effeithlonrwydd a gwella gwasanaethau cyhoeddus pe na bai'r Gronfa Buddsoddi i Arbed yn bodoli. Er iddynt roi rhai enghreifftiau penodol (fel buddsoddi mwy o arian yn y Grant Cytundeb Canlyniadau Llywodraeth Leol), roedd cytundeb cyffredinol y byddai'n fwy buddiol cadw'r Gronfa Buddsoddi i Arbed na defnyddio'r arian ar gyfer y pethau eraill a grybwyllwyd:

“Gallaf feddwl am o leiaf bedwar lle arall i roi'r arian, ond y peth da am Fuddsoddi i Arbed yw ei bod yn gwneud yr hyn y mae'n ei addo ac yn helpu [...] i leihau'r pwysau ar adnoddau ariannol llywodraeth leol drwy fuddsoddi mewn prosiectau arloesol.”

**(Rhanddeiliad, Llywodraeth Cymru)**

Trafododd rhanddeiliaid hefyd brif fanteision ac anfanteision defnyddio dull grantiau ad-daladwy. Roedd y rhanddeiliaid yn gadarnhaol ar y cyfan ynghylch agwedd ad-daladwy'r Gronfa, yn enwedig mewn perthynas â'r dewis arall o roi grantiau na fyddai angen eu had-dalu. Cafodd nifer o'r rhanddeiliaid a gyfwelwyd drafferth meddwl am unrhyw anfanteision o bwys i'r dull grantiau ad-daladwy. Crynhoir y prif faterion a drafodwyd yn Nhabl 3.4 (isod).

**Tabl 3.4: Manteision ac anfanteision y dull grantiau ad-daladwy**

<b>Manteision</b>	<b>Anfanteision</b>
Mae'n hybu agenda gyffredin rhwng Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach	Gall gorbenion prosiectau llai fod yn anghymesur o gostus
Mae'n gorfodi disgyblaeth wrth wireddu manteision, am fod yn rhaid ad-dalu'r cyllid	Ni ellir eu defnyddio i ariannu cynlluniau sy'n cyflawni gwelliannau i wasanaethau ond nad ydynt yn cyflawni arbedion y gellir eu troi yn arian parod
Mae'n dileu'r angen i chwilio'n barhaus am ffynonellau newydd o gyllid	
Mae'n annog newid diwylliannol drwy hybu cydweithredu a buddsoddi i arbed mewn cyfnod sy'n anodd yn ariannol	
Gyda'r dewis arall (rhoi grantiau), byddai angen mwy o wirio a chymbwysu, a gallai fod yn fwy biwrocraidd a gwrth-risg	

*Ffynhonnell: Cyfweiliadau â rhanddeiliaid Buddsoddi i Arbed*

At hynny trafododd rhanddeiliaid y prif alluogwyr a rhwystrau sydd wedi helpu i bennu llwyddiant y Gronfa o ran cyrraedd ei nodau. Crynhoir y prif faterion yn Nhabl 3.5 (isod).

**Tabl 3.5: Penderfynyddion llwyddiant y Gronfa**

<b>Galluogwyr</b>	<b>Rhwystrau</b>
Tîm Buddsoddi i Arbed ymroddedig sy'n cynnal deialog parhaus â sefydliadau a ariannwyd	Weithiau caiff cynigion eu cwblhau ar frys (gellid lliniaru hyn drwy gyhoeddi'r gylchred o gylchoedd cynnig ymlaen llaw)
Prosiectau'n cael adborth a monitro rheolaidd	Amheuaeth ynghylch hyd a lled ychwanegedd prosiectau llai
Proses gynnig drwyadl ond hyblyg	Nid yw llywodraeth leol yn cyfranogi cymaint ag y dymunid – mae ganddynt yr opsiwn i fenthyca o fannau eraill ac weithiau gall cyfraddau llog isel fod yn fwy dymunol na thelerau ad-dalu Buddsoddi i Arbed
Cefnogaeth ac arweiniad Gweinidogion wedi helpu i godi proffil y Gronfa	

*Ffynhonnell: Cyfweiliadau â rhanddeiliaid Buddsoddi i Arbed*

### 3.4 Y broses gynnig

#### Prif ganfyddiadau

- At ei gilydd roedd rheolwyr prosiectau a ariannwyd yn gadarnhaol iawn am y broses gynnig. Roeddent yn arbennig o gadarnhaol ynghylch y canllaw a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, ac ynghylch eglurder yr hyn a ddisgwyliid ym mhob cam.
- Roedd y cyfweleion o brosiectau nas ariannwyd yn tueddu i fod yn llai cadarnhaol, gyda rhai yn meddwl bod y broses gynnig yn eithaf beichus, a bod yr amserlen i gyflwyno ceisiadau yn rhy fyr.
- Roedd y rhanddeiliaid yn tueddu i feddwl bod trylwyredd y broses gynnig yn gymesur â'r swm o arian a gynigid.
- Awgrymodd rhai cyfweleion y gellid cyflwyno themâu ar gyfer pob cylch cynnig, fel bod Llywodraeth Cymru yn gallu canolbwyntio ar flaenoriaethau penodol, ac ymgeiswyr yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â phriodoldeb cynnig yn y cylch hwnnw.
- Roedd rhai (ond nid pob un) o'r rhanddeiliaid yn meddwl y byddai'n syniad da cael aelod o'r tu allan i Lywodraeth Cymru ar banel swyddogion Buddsoddi i Arbed, i gael safbwynt allanol.

#### 3.4.1 Canfyddiadau'r arolygon

Yn yr arolygon prosiectau a ariannwyd ac nas ariannwyd, gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â nifer o ddatganiadau am broses gynnig Buddsoddi i Arbed.

Roedd yr ymatebwyr i'r arolwg prosiectau a ariannwyd yn gadarnhaol iawn ynghylch y canllaw a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, ac ynghylch eglurder yr hyn a ddisgwyliid ganddynt ym mhob cam o'r broses gynnig. Roeddent hefyd yn meddwl bod y broses o baratoi'r cynnig yn cryfhau eu prosiect (Tabl 3.6).



<b>Tabl 3.6: Y broses gynnig (prosiectau a ariannwyd)</b>			
	<b>Cytuno</b>	<b>Niwtral</b>	<b>Anghytuno</b>
Roedd y canllaw a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru o gymorth wrth baratoi'r cynnig	14	8	0
Roedd yr hyn a ddisgwyliid gan ein cynnig yn glir ym mhob cam o'r broses	16	6	0
Fe wnaeth y broses o baratoi'r cynnig gryfhau ein prosiect	14	7	1
Roedd y broses gynnig yn rhy feichus	2	11	9
Mae'r broses gynnig yn fuddiol, waeth beth fo'r canlyniad	10	10	2
Yn gyffredinol, roeddwn yn fodlon ar y broses gynnig	16	6	0
<i>Ffynhonnell: Arolwg prosiectau a ariannwyd</i>			

Roedd ymatebwyr i'r arolwg prosiectau nas ariannwyd yn llai cadarnhaol ynghylch y broses gynnig, yn enwedig yn eu hymateb i'r datganiad 'Mae'r broses gynnig yn fuddiol, waeth beth fo'r canlyniad'. Fodd bynnag, roedd yr ymatebwyr yn dal yn gadarnhaol ar y cyfan ynghylch y canllaw a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, ac ynghylch eglurder yr hyn a ddisgwyliid ganddynt ym mhob cam o'r broses gynnig (Tabl 3.7).

<b>Tabl 3.7: Y broses gynnig (prosiectau nas ariannwyd)</b>			
	<b>Cytuno</b>	<b>Niwtral</b>	<b>Anghytuno</b>
Roedd y canllaw a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru o gymorth wrth baratoi'r cynnig	6	2	1
Roedd yr hyn a ddisgwyliid gan ein cynnig yn glir ym mhob cam o'r broses	7	0	2
Fe wnaeth y broses o baratoi'r cynnig gryfhau ein prosiect	2	4	3
Roedd y broses gynnig yn rhy feichus	3	4	2
Mae'r broses gynnig yn fuddiol, waeth beth fo'r canlyniad	2	3	4
Yn gyffredinol, roeddwn yn fodlon ar y broses gynnig	4	2	3
<i>Ffynhonnell: Arolwg prosiectau nas ariannwyd</i>			

Roedd nifer o'r sylwadau gan ymgeiswyr prosiectau nas ariannwyd ynglŷn â sut i wella'r broses gynnig yn canolbwyntio ar yr amserlen i baratoi cynnig:

“Gallai fod yn ddefnyddiol i'r broses gynnig fod ar agor drwy'r flwyddyn. Am fod ein cynnig yn un amlsefydliadol, roedd yn anodd sicrhau bod y gofynion llywodraethu wedi'u bodloni ym mhob sefydliad mewn amserlen o chwe i wyth wythnos.” **(Prosiect nas ariannwyd, Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

### 3.4.2 Barn ar ganllaw Llywodraeth Cymru

Yn ystod y cyfweiliadau ansoddol dilynol, taflwyd mwy o oleuni ar farn pobl am y broses gynnig. Er na fu'r holl gyfweleion prosiectau a ariannwyd yn ymwneud yn uniongyrchol â'r broses gynnig, roedd y rhai a fu yn meddwl bod y cymorth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn ddefnyddiol:

“Y prif beth i ni [...] oedd cymwynasgarwch y tîm Buddsoddi i Arbed. Pan fyddech am ofyn cwestiwn, roedd yn hawdd iawn codi'r ffôn a gofyn 'Beth y'ch chi'n ei geisio yma?' Roedd hynny'n fuddiol iawn.” **(Prosiect a ariannwyd, Cymru gyfan)**

Roedd y cyfweleion yn tueddu i deimlo eu bod wedi'u paratoi'n dda at y cyflwyniadau i banel swyddogion Buddsoddi i Arbed, ond dywedodd un cyfweilai fod yr wybodaeth a gawsent am y ffordd y byddai'r cyflwyniad a'r drafodaeth â'r panel yn cael eu cynnal wedi rhoi'r argraff anghywir iddynt:

“Roedd y panel yn gefnogol iawn yn ein helpu gyda'r hyn yr oeddem yn ceisio'i wneud, ond un peth nad oedd yn help oedd y diffyg eglurder ynglŷn â natur y sefyllfa y byddem yn ei hwynebu – yn y pen draw roedd yn llawer gwell ac yn llai ffurfiol nag yr oeddem wedi disgwyl. Roedd rhywfaint o ddirgelwch ynglŷn â'r peth – nid oeddem yn gwybod beth oedd o'n blaen.” **(Prosiect a ariannwyd, Caerdydd a'r Fro)**

Pan holwyd hwy am ddefnyddioldeb canllaw Llywodraeth Cymru, roedd y cyfweleion o brosiectau nas ariannwyd yn gadarnhaol ar y cyfan. Dywedwyd bod y canllaw yn syml, yn ddefnyddiol ac yn hawdd ei ddilyn. Fodd bynnag, roedd rhai cyfweleion yn teimlo bod yr amserlen ar gyfer cyflwyno datganiad o ddiddordeb yn rhy fyr:

“Nid oedd paratoi'r cynnig yn rhy anodd am fod gennym ganllaw i'w ddilyn. Yr amserlen oedd y broblem [...] roedd yn eithaf tyn rhwng y datganiad o ddiddordeb a chwblhau'r cynnig. Yn fy marn i, roedd yr amserlen yn fwy o broblem na pheidio â chael yr wybodaeth yr oedd ei hangen arnom.” **(Prosiect nas ariannwyd, Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

“I wasanaeth bach, roedd yr amser yr oedd ei angen i baratoi'r cynnig a chasglu tystiolaeth yn dipyn o her.” **(Prosiect nas ariannwyd, Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

### 3.4.3 Trylwyredd y broses gynnig

Roedd rhai o'r cyfweleion o brosiectau a ariannwyd yn teimlo bod y broses gynnig ei hun wedi helpu i gryfhau eu prosiectau rywfaint a'u gwneud yn gadarnach. Fel y dywedodd un cyfwelai:

“Bu'r [broses gynnig] yn bendant o gymorth – roedd yn gymorth da. Ar ôl i ni gwblhau'r [broses] roeddem yn teimlo bod gennym gynllun eithaf strategol yn hytrach nag un a oedd ar chwâl a dweud y gwir. Daeth â phopeth at ei gilydd yn dda iawn.” **(Prosiect a ariannwyd, Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Roedd y cyfweleion o brosiectau a ariannwyd yn cytuno'n gyffredinol nad oedd y broses gynnig yn rhy feichus o ystyried y cyllid a gynigid, a bod y broses yn un deg:

“Nid oeddwn yn teimlo bod [y panel] yn codi rhwystrau diangen. Roeddent yn gofyn pam oeddech chi am ei wneud, beth oeddech chi am ei wneud, sut oeddech chi am ei wneud, sut byddech yn ei ariannu, a sut byddai'n edrych. Dylai'r wybodaeth allweddol hon fod gennych beth bynnag cyn cyflawni prosiect. Roedd yn deg.” **(Prosiect a ariannwyd, Cymru gyfan)**

Er bod y gwaith ynghlwm wrth baratoi'r cynnig yn cael ei ystyried yn gymesur â'r cyllid a gynigid, cwynodd un cyfwelai i'r adrodd a'r monitro ar ôl y dyfarniad fod yn ailadroddus:

“Roedd Llywodraeth Cymru yn gefnogol iawn yn y broses gynnig ond ar ôl y dyfarniad a chychwyn y prosiect [...] byddai'n well pe bai pob prosiect yn diweddarau ar adeg

briodol [...] Sefydliad academiaidd ydym ni, felly mae yna gyfnodau yn ystod y flwyddyn sy'n fwy priodol i ofyn am adborth. Pe bai amserlen adrodd yn cael ei chynllunio ar gychwyn pob prosiect, byddai'r adborth i Lywodraeth Cymru yn fwy defnyddiol.” **(Prosiect a ariannwyd, Caerdydd a'r Fro)**

Yn gyffredinol, roedd y cyfweleion o brosiectau nas ariannwyd yn ystyried y broses gynnig yn fwy beichus na chyfweleion o brosiectau a ariannwyd:

“Gofynnwyd i ni ddarparu toreth o wybodaeth i ddangos pam fod angen inni wario'r arian, a chofier nad cais am grant oedd hwn, ond am arian y byddai'n rhaid i ni ei adalu beth bynnag [...] Roedd yn rhy feichus yn fy marn i.” **(Prosiect nas ariannwyd, Bae Abertawe)**

#### **3.4.4 Cryfhau prosiectau drwy'r broses gynnig**

Gofynnwyd i gyfweleion o brosiectau nas ariannwyd a oedd y profiad o gynnig am gyllid Buddsoddi i Arbed wedi bod yn fuddiol i'r prosiect. Rhannwyd y cyfweleion gan y cwestiwn hwn, gyda thri yn dweud bod y profiad ddim wedi bod yn fuddiol neu ddim wedi gwneud unrhyw wahaniaeth i'r prosiect. Fodd bynnag, atebodd y tri chyfwelai arall iddo fod yn gadarnhaol er iddynt fethu â chael cyllid (neu i'r prosiect gael ei dynnu yn ôl), am ei fod wedi helpu i ddatgelu gwendidau yn y prosiect, i ddangos lle'r oedd angen mwy o ffocws, neu i gwestiynu'r sail resymegol dros ymgeisio am gyllid prosiect:

“Fe wnaeth ein helpu i ganolbwyntio ar fod yn glir ynghylch ein rhesymau dros wneud hyn [...] Mae'n rhaid gwneud y peth iawn, allwch chi ddim â hel arian ac yna'i daflu at rywbeth. Fe barodd inni ailasesu rhai o sylfeini'r hyn yr oeddem yn ei wneud.” **(Prosiect nas ariannwyd, Gogledd Cymru)**

“Na, dw i ddim yn meddwl, am fod y prosiect [eisoed] wedi'i lunio'n dda. Ni ddywedodd neb 'mae cyllid ar gael, beth am sefydlu prosiect'. Y gwrthwyneb oedd yn wir – roedd gennym brosiect, roeddem yn awyddus iawn i'w gyflawni, os gallem sicrhau cyllid allanol byddai'n ein helpu'n fawr i roi'r prosiect ar waith yn gynt.” **(Prosiect nas ariannwyd, Gogledd Cymru)**

### 3.4.5 Barn rheolwyr prosiect ar wella'r broses gynnig

Yn gyffredinol roedd y cyfweleion o brosiectau a ariannwyd yn meddwl bod y broses gynnig yn effeithiol ac nad oedd angen ei newid. Fodd bynnag, un awgrym a gafwyd oedd y dylid lleihau'r amser rhwng cyflwyno'r cynnig a chyhoeddi'r prosiectau llwyddiannus.

Pan ofynnwyd i gyfweleion o brosiectau nas ariannwyd a ellid gwella proses gynnig Buddsoddi i Arbed, roedd yr awgrymiadau'n cynnwys creu gwell cysylltiadau â'r mathau eraill o gyllid a gynigir gan Lywodraeth Cymru, ac i Lywodraeth Cymru hysbysu ymgeiswyr o'i blaenoriaethau ariannu, er mwyn i ymgeiswyr wneud penderfyniad gwybodus ynghylch ymgeisio am gyllid:

"Dylid cysylltu'r broses gynnig yn well â chronfeydd [buddsoddi cyfalaf] achos os caem gyllid ar gyfer y cyfalaf a chyllid Buddsoddi i Arbed ar gyfer y refeniw, byddai gennym becyn cyflawn. Roedd yn eich atgoffa o'r iâr a'r wy." **(Prosiect nas ariannwyd, Gogledd Cymru)**

"Y peth pwysig, rwy'n credu, yw gwybod beth yw amcan y gronfa Buddsoddi i Arbed. Rwy'n credu bod angen i Lywodraeth Cymru fod yn llawer cliriach ynglŷn â'r hyn y gellir ei wneud â'r arian a'r hyn na ellir ei wneud. [...] Mae'n ymddangos bod llawer mwy o bwyslais ar gydweithredu yn y cylch diweddaraf ac mae angen i hynny fod yn glir hefyd. Os nad oes elfen gydweithredol iddo, a oes diben cynnig?" **(Prosiect nas ariannwyd, Bae Abertawe)**

### 3.4.6 Barn rhanddeiliaid ar wella'r broses gynnig

Ceisiwyd hefyd farn rhanddeiliaid ar y broses gynnig yn y cyfweiliadau ansoddol. Nid oedd yr holl rhanddeiliaid mewn sefyllfa i roi barn wybodus am effeithiolrwydd y broses gynnig. Roedd y rhai a oedd mewn sefyllfa yn gadarnhaol ar y cyfan, ond nodwyd hefyd ambell broblem gyda'r broses i ymgeiswyr (amserlenni i wneud cais am gyllid) a chyda'r panel swyddogion (darparu craffu priodol ar gyfer y prosiectau):

“Mae’r amserlenni wedi teimlo’n gywasgedig ac yn rhyfedd, heb ryw lawer o amser i gwblhau’r cais. Ond mae’r amser i ystyried ceisiadau [yn teimlo’n] hirach o lawer.”  
**(Rhanddeiliad, allanol)**

“Mae’n anodd darparu craffu priodol ar gyfer nifer fawr o gynlluniau, ac mae angen llawer o graffu ar gynlluniau mawr. [...] Dyna’r ateb, efallai: nifer fach o brosiectau mawr.” **(Rhanddeiliad, Llywodraeth Cymru)**

Gofynnwyd i’r rhanddeiliaid a allai ateb pa mor feichus, yn eu barn hwy, oedd y broses gynnig i ymgeiswyr. Y farn amlycaf ymhlith rhanddeiliaid Llywodraeth Cymru oedd fod trylwyredd y broses gynnig yn gymesur o ystyried y swm o arian a gynnigid:

“Mae fwy neu lai’n iawn. Ddim yn rhy feichus. Dyna un o gryfderau’r cynllun – mae’r syniad o gael lefelau isel o weinyddiaeth a gwaith papur am y swm hwnnw o arian yn ymddangos yn gwbl gymesur a synhwyrol.” **(Rhanddeiliad, Llywodraeth Cymru)**

“Os ydych yn gofyn am filiynau o bunnoedd, nid yw’n ormod ysgwyddo rhywfaint o faich.” **(Rhanddeiliad, Llywodraeth Cymru)**

Roedd un rhanddeiliad yn teimlo bod trylwyredd y broses gynnig yn rheswm arall i’r Gronfa ganolbwyntio ar brosiectau mwy:

“Mae’n weddol feichus, ac mae hynny’n cryfhau’r ddadl mai Cronfa ar gyfer prosiectau mawr yn unig y dylai fod.” **(Rhanddeiliad, Llywodraeth Cymru)**

Pan ofynnwyd sut y gellid gwella’r broses gynnig, roedd yr awgrymiadau gan rhanddeiliaid yn cynnwys:

- Newid y trothwy sylfaenol ar gyfer gwerth prosiectau (isafswm o £100,000 ar hyn o bryd) i annog ceisiadau mwy eu gwerth.
- Cyflwyno themâu ar gyfer pob cylch, yn dibynnu ar y meysydd y mae Llywodraeth Cymru eisiau canolbwyntio ar eu gwella.
- Cyflwyno i banel swyddogion Buddsoddi i Arbed aelod o’r tu allan i Lywodraeth Cymru, i gael safbwynt allanol.

Fodd bynnag, rhybuddiodd un rhanddeiliad y byddai'n rhaid i aelodau allanol o'r panel gael eu dewis yn ofalus oherwydd natur y trafodaethau:

“Mae'n syniad da! [...] Fodd bynnag, rhaid gofalu bod person addas yn cael ei ddewis am fod rhai o'r trafodaethau'n wleidyddol.” **(Rhanddeiliad, Llywodraeth Cymru)**

## 3.5 Cydweithredu

### Prif ganfyddiadau

- Mae rhanddeiliaid yn meddwl bod y Gronfa'n llwyddo i annog cydweithredu rhwng sefydliadau. Fodd bynnag, roedd rhai rhanddeiliaid yn tybio y gallai Llywodraeth Cymru wneud mwy i annog cydweithredu parhaus ar draws rhanbarthau a sectorau, ac y gallai'r Gronfa chwarae rhan bwysig yn hynny.
- Roedd rheolwyr prosiectau cydweithredol yn gadarnhaol ar y cyfan pan ofynnwyd iddynt sut brofiad oedd cydweithio â sefydliadau partner ar eu prosiect. Dywedwyd bod y rhan fwyaf o'r anawsterau a wynebwyd wedi'u goresgyn yn llwyr neu gan mwyaf.
- Ategir barn led-gadarnhaol y rheolwyr prosiect ar gydweithredu gan y ffaith fod tri chwarter o'r ymatebwyr i'r arolygon wedi dweud bod eu profiad o gydweithredu ar y prosiect hwn wedi'u gwneud yn fwy tebygol o weithio ar brosiectau partneriaeth yn y dyfodol. Nododd rhyw chwarter nad oedd wedi gwneud unrhyw wahaniaeth, ond ni nododd neb eu bod yn llai tebygol.

### 3.5.1 Cydweithredu a'r Gronfa Buddsoddi i Arbed

Mae'r Gronfa Buddsoddi i Arbed yn annog cydweithredu lle y gellir dangos y bydd yn cynyddu effeithlonrwydd, ond caiff prosiectau anghydweithredol eu cynorthwyo hefyd. Er nad yw'n anghenraid, mae'r rhan fwyaf o'r prosiectau a gynorthwywyd gan Fuddsoddi i Arbed wedi bod yn rhai cydweithredol. Mae'r canfyddiadau a nodir yn yr adran hon yn trafod profiadau'r rheolwyr prosiect o fanteision a heriau cydweithredu, a barn rhanddeiliaid ar y rhan a chwaraeir gan Fuddsoddi i Arbed yn y gwaith o hybu diwylliant o gydweithredu.

### 3.5.2 Manteision cydweithredu

Gofynnwyd i ymatebwyr i'r arolwg prosiectau a ariannwyd sut brofiad oedd cydweithio â sefydliadau partner ar eu prosiect. Fel y dengys Tabl 3.8, roedd yr ymatebwyr yn gadarnhaol ar y cyfan, ac ni nododd neb fod y profiad yn negyddol.



<b>Tabl 3.8: Cydweithredu</b>			
	<b>Cadarnhaol</b>	<b>Niwtral / Amherthnasol</b>	<b>Negyddol</b>
Yn gyffredinol, sut brofiad oedd cydweithio â sefydliad(au) partner ar y prosiect hwn?	16	6	0
<i>Ffynhonnell: Arolwg prosiectau a ariannwyd</i>			

Trafodwyd cydweithredu ymhellach yn y cyfweiliadau ansoddol. Pan ofynnwyd iddynt beth oedd prif fanteision cydweithredu, roedd tuedd i gyfweleion o brosiectau a ariannwyd sôn am lai o ddyblygu gwaith neu well effeithlonrwydd. Dyma enghreifftiau eraill:

- gwybodaeth yn cael ei rhannu;
- ansawdd gwasanaethau yn gwella drwy 'heriau teg' rhwng sefydliadau partner;
- gwell perthynas waith â sefydliadau partner a gwell dealltwriaeth o'u rôl o fewn gwasanaeth; a
- y fantais o gael unigolyn mewn sefydliad partner y gellir cysylltu'n uniongyrchol ag ef.

### **3.5.3 Heriau cydweithredu**

Pan holwyd hwy am yr anawsterau a wynebwyd wrth gydweithredu, cafwyd yr enghreifftiau canlynol gan gyfweleion o sefydliadau a ariannwyd:

- problemau gyda'r trefniadau rheoli;
- trafferthion cael yr holl sefydliadau partner i gytuno;
- y prosiect yn cymryd mwy o amser i'w gwblhau;
- partneriaid eraill ddim yn cyfranogi; a
- pryder y byddai gweithredu rhanbarthol yn golygu colli 'gwybodaeth leol'.

Roedd y cyfweleion a wynebodd anawsterau wrth gydweithredu yn teimlo at ei gilydd fod y problemau wedi'u goresgyn drwy 'roi sylw iddynt ar unwaith', a thrwy 'drafod y sefyllfa' â phartneriaid. Pan holwyd a oedd eu profiadau wedi'u

gwneud yn fwy neu'n llai tebygol o weithio ar brosiectau partneriaeth yn y dyfodol, roedd y cyfweleion yn tueddu i fod yn lled-gadarnhaol: 'Ydy, [mae wedi fy ngwneud] yn fwy tebygol. Nid oes problemau mawr wedi codi.'

O'r ymatebwyr i'r arolygon a wynebodd anawsterau wrth gydweithredu, dywedodd 14 fod yr anawsterau wedi'u goresgyn yn llwyr neu gan mwyaf; nododd un mai dim ond ychydig o'r anawsterau oedd wedi'u goresgyn; ac ni nododd neb fod dim un o'r anawsterau wedi'u goresgyn.

Ategir barn gadarnhaol y rheolwyr prosiect ar gydweithredu gan y ffaith fod **tri chwarter** o'r ymatebwyr yn dweud bod eu profiad o gydweithredu ar y prosiect wedi'u gwneud yn fwy tebygol o weithio ar brosiectau partneriaeth yn y dyfodol. Nododd rhyw chwarter nad oedd wedi gwneud unrhyw wahaniaeth, ond ni nododd neb eu bod yn llai tebygol.

Roedd y sylwadau ychwanegol am gydweithredu yn cynnwys:

"Rhaid peidio â gwneud môr a mynydd o'r anawsterau, am fod y manteision cyffredinol yn gorbwyso'r mân anawsterau'n sylweddol." (**Prosiect a ariannwyd, Gogledd Cymru**)

"Rhaid i chi fod yn barod i wynebu a delio ag unrhyw atalwyr. Ar y cychwyn, gwnaethom ein gorau i ddatrys rhai anawsterau mewn ffordd adeiladol iawn ond mae un partner allweddol wedi bod yn anodd dros ben." (**Prosiect a ariannwyd, Canolbarth a Gorllewin Cymru**)

### **3.5.4 Barn rhanddeiliaid ar gydweithredu**

O ran yr effeithiau ehangach ar y sector cyhoeddus yng Nghymru, roedd rhai o'r rhanddeiliaid a gyfwelwyd yn teimlo bod y Gronfa'n chwarae rhan werthfawr yn y gwaith o annog cydweithredu rhwng sefydliadau, yn ddaearyddol, ac yn ôl sector, yn enwedig mewn cyfnod o drafferthion ariannol:

"Mae [Buddsoddi i Arbed] yn annog sefydliadau a phobl mewn sefydliadau i gydweithio. Mae'n annog cydweithredu ar brosiect penodol, a gwyddom am un neu

ddau faes lle mae Buddsoddi i Arbed wedi bod yn gatalydd i gydweithredu.”

**(Rhanddeiliad, allanol)**

Fodd bynnag, roedd y rhanddeiliaid ar y cyfan yn teimlo y gallai Llywodraeth Cymru wneud mwy i annog cydweithredu parhaus ac i sicrhau newid mwy sylweddol o ran diwylliant ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru – ac y gallai'r Gronfa chwarae rhan werthfawr yn hynny.

### 3.6 Yr effaith mewn sefydliadau a ariannwyd

#### Prif ganfyddiadau

- Credid bod y prosiectau Buddsoddi i Arbed wedi arwain at fwy o effeithiau cadarnhaol nag o effeithiau negyddol yn y sefydliadau a ariannwyd. Roedd effeithiau cadarnhaol y prosiectau yn cynnwys rhannu'r arferion gorau â rhannau eraill o'r sefydliad, a gwell ffyrdd o weithio.
- Yr effaith negyddol fwyaf cyffredin a nodwyd oedd gwrthwynebiad gan staff i newid y ffordd y darperir gwasanaeth, ond ystyrir hyn yn aml yn rhan o broses a fyddai'n arwain at well arferion gweithio dros y tymor hwy.
- Dywedodd nifer o'r rheolwyr prosiect fod yr ymrwymiad amser i weithredu a chynnal y prosiect yn fwy na'r disgwyl. Roedd y rhesymau am hyn yn cynnwys gorsymleiddio'r prosiect ar y cychwyn; gwrthwynebiad mewnol gan y gweithlu; a pheidio â rhagweld y byddai'r prosiect yn datblygu ac yn tyfu.

#### 3.6.1 Effeithiau cadarnhaol mewn sefydliadau a ariannwyd

Roedd yr ymatebwyr i'r arolwg prosiectau a ariannwyd yn fwy tebygol o ddweud bod gweithredu eu prosiectau wedi cael effeithiau cadarnhaol yn hytrach nag effeithiau negyddol yn eu sefydliad eu hunain (Tabl 3.9).

	<b>Ydyw</b>	<b>Nac ydyw</b>	<b>Ddim yn gwybod</b>
A yw gweithredu'r prosiect hwn wedi cael unrhyw effeithiau <i>negyddol</i> yn eich sefydliad eich hun?	4	13	5
A yw gweithredu'r prosiect hwn wedi cael unrhyw effeithiau <i>cadarnhaol</i> yn eich sefydliad eich hun?	17	1	4
<i>Ffynhonnell: Arolwg prosiectau a ariannwyd</i>			

Roedd effeithiau cadarnhaol gweithredu'r prosiectau yn cynnwys rhannu'r arferion gorau â rhannau eraill o'r sefydliad, a gwell ffyrdd o weithio:

“Mae nifer o wasanaethau 'nad ydynt yng nghwmpas Buddsoddi i Arbed' yn gweld cyfleoedd [...] i gyflawni arbedion effeithlonwydd yn eu gwasanaethau drwy gynlluniau tebyg.” **(Prosiect a ariannwyd, Caerdydd a'r Fro)**

### **3.6.2 Effeithiau negyddol mewn sefydliadau a ariannwyd**

Pan ofynnwyd a oedd gweithredu'r prosiectau wedi cael unrhyw oblygiadau negyddol o fewn sefydliad, yr ymateb mwyaf cyffredin oedd gwrthwynebiad gan staff i newid y ffordd y darperir gwasanaeth; yr angen i ailhyfforddi; a goblygiadau ymarferol materion capasiti:

“Mae wedi rhoi straen ar yr adnoddau staff.” **(Prosiect a ariannwyd, Cymru gyfan)**

“Mae'r broses o newid [...] yn achosi gofid yn y tymor byr.” **(Prosiect a ariannwyd, Caerdydd a'r Fro)**

Fodd bynnag, roedd tuedd i ystyried yr effeithiau negyddol hyn mewn sefydliadau yn rhan o'r her o weithredu'r prosiect, ac nid oedd yr un o'r cyfweleion yn meddwl bod yr effeithiau negyddol o fewn y sefydliad yn fwy na'r effeithiau cadarnhaol. Y farn gyffredinol oedd fod y materion negyddol tybiedig yn ddibwys o'u cymharu â'r gwelliannau i wasanaethau:

“Mae problemau wedi codi gyda phethau fel hyfforddiant a lefelau staffio – ond mae hynny'n rhan o her y gwaith. Ni ddywedwn fod hynny'n negyddol.” **(Prosiect a ariannwyd, Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

“Bydd [rhai] pobl yn anhapus gyda'r newid am ein bod 'wastad wedi'i wneud fel hyn neu fel yna'. Mae'r problemau hyn yn parhau ac yn debyg o barhau am beth amser, ond yn fy marn i maen nhw'n ddibwys o'u cymharu â'r gwelliannau ansawdd a gawn yn y tymor hwy.” **(Prosiect a ariannwyd, Cymru gyfan)**

Awgrymodd cyfweleion y gellid goresgyn problemau gyda staff drwy gyfathrebu effeithiol, rheoli da a thrafodaethau parhaus â staff. Yr unig effaith negyddol dybiedig arall o weithredu'r prosiect oedd y baich o adrodd ar gynnydd i Lywodraeth Cymru, fel yr awgrymodd un cyfwelai.

### 3.6.3 Ymrwymiad amser

Gofynnwyd i ymatebwyr i'r arolwg prosiectau a ariannwyd a oedd yr ymrwymiad amser i weithredu a chynnal y prosiect yn fwy neu'n llai na'r disgwyl. Fel y dengys Tabl 3.10 isod, nododd 10 o'r ymatebwyr ei fod yn fwy na'r disgwyl, a 10 ei fod fel y disgwyl.

<b>Tabl 3.10: Manteision y prosiect</b>				
	<b>Mwy na'r disgwyl</b>	<b>Fel y disgwyl</b>	<b>Llai na'r disgwyl</b>	<b>Rhy gynnar i ddweud</b>
Ymrwymiad amser i weithredu a chynnal y prosiect	10	10	0	2
<i>Ffynhonnell: Arolwg prosiectau a ariannwyd</i>				

Roedd y rhesymau dros nodi bod yr ymrwymiad amser yn fwy na'r disgwyl yn cynnwys:

“Cymhlethdod y sefydliadau a oedd yn cymryd rhan a hefyd nifer y sefydliadau a oedd yn cymryd rhan. Hyd a lled y newidiadau yr oedd eu hangen i'r gwasanaeth o ganlyniad i'r gwendidau a nodwyd drwy waith y prosiect.” **(Prosiect a ariannwyd, Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

“Gwrthwynebiad y gweithlu a hyfforddiant.” **(Prosiect a ariannwyd, Gogledd Cymru)**

“Aeth y gofynion yn fanylach wrth i'r prosiect ddatblygu, a bu'n rhaid ymrwymo llawer mwy o amser.” **(Prosiect a ariannwyd, Bae Abertawe)**

Yn yr ymchwil ansoddol ddilynol, dywedodd bron pob cyfwelai fod yr amser a ymrwymwyd i weithredu a chynnal eu prosiectau wedi'i danamcangyfrif.

Roedd y rhesymau am hyn yn cynnwys y ffaith fod y prosiect wedi'i orsymleiddio ar y cychwyn, ac na ddisgwylid i'r prosiect ddatblygu a thyfu:

“Fel sy'n digwydd mor aml, roedd y prosiect wedi'i orsymleiddio ar y cychwyn. Pan fyddwch wrthi, mae'n llawer mwy o waith. Yna fe dd'wedwch 'dyw'r wybodaeth hon na'r wybodaeth honno ddim gennym' a sylweddolwch fod llawer mwy o waith nag a ddisgwylid. Optimistiaeth sy'n cyfrif am hyn.” **(Prosiect a ariannwyd, Bae Abertawe)**

“Mae’r [ymrwymiad amser] wedi bod yn fwy na’r disgwyl am fod y prosiect wedi tyfu a thyfu. Bu’n rhaid i ni benodi rheolwr prosiect llawnamser i sicrhau bod y prosiect yn cael y sylw angenrheidiol.” **(Prosiect a ariannwyd, Caerdydd a’r Fro)**

### 3.7 Eiriolaeth ac arferion da

#### Prif ganfyddiadau

- Byddai'r 22 ymatebydd i'r arolwg prosiectau a ariannwyd yn argymhell gwneud cais am gyllid o'r Gronfa Buddsoddi i Arbed i gyrff tebyg. Er na fyddai cynifer o'r ymatebwyr i'r arolwg prosiectau nas ariannwyd yn argymhell hynny, roeddent yn dal yn gadarnhaol ar y cyfan.
- Ystyrid mai prif fanteision y Gronfa oedd yr ysgogiad i brosiectau a fyddai'n anodd eu cychwyn fel arall, a'r cydbwysedd o drylwyredd a chymorth a gafwyd gan y panel swyddogion yn ystod y broses asesu.
- Pe baent yn ymgeisio eto, dywedodd rhai cyfweleion o brosiectau nas ariannwyd y byddent yn rhoi mwy o sylw i agweddau ariannol eu cynnig, yn hytrach na dim ond canolbwyntio ar welliannau i'r gwasanaeth.

#### 3.7.1 Eiriolaeth gan sefydliadau a ariannwyd

Byddai'r 22 ymatebydd o brosiectau a ariannwyd yn argymhell gwneud cais am gyllid o'r Gronfa Buddsoddi i Arbed i gyrff tebyg. Nododd 15 y byddent 'yn bendant' yn argymhell, a nododd saith y byddent 'fwy na thebyg' yn argymhell.

Yn y cyfweiliadau ansoddol dilynol, roedd yr holl gyfweleion o brosiectau a ariannwyd yn gadarnhaol pan ofynnwyd a fyddent yn argymhell gwneud cais am gyllid o'r Gronfa Buddsoddi i Arbed i gyrff tebyg. Roedd y manteision a amlinellwyd yn cynnwys yr ysgogiad i brosiectau a fyddai'n anodd eu cychwyn fel arall, a'r ffaith fod y prosiectau'n gadarnach oherwydd y cydbwysedd da o drylwyredd a chymorth a geid gan y panel swyddogion yn ystod y broses asesu:

“Mae'n syniad gwych. Mae angen y cyfalaf arnoch i gychwyn rhywbeth, felly mae'n bendant yn beth da. Mae'n helpu prosiectau i fynd rhagddynt. Gallwch weld potensial llawer o bethau, ond efallai nad oes gennych y cyfalaf i gychwyn y prosiect.”

**(Prosiect a ariannwyd, Bae Abertawe)**



Yn ddigymell, mynegodd dau gyfwelai safbwyntiau cwbl wahanol am gyfnod ad-dalu'r prosiectau, a oedd yn weddol fyr yn eu tyb hwy:

“Rwy'n meddwl ei bod yn system dreigl dda am fod gofyn ad-dalu'n weddol fuan, felly gall yr arian fynd yn ôl i'r gronfa ac allan eto yn eithaf cyflym i sefydliadau anghenus a haeddiannol eraill.” (**Prosiect a ariannwyd, Canolbarth a Gorllewin Cymru**)

“Rwy'n meddwl y gallai'r cyfnod ad-dalu fod yn hirach. Rwy'n deall mai cronfa ailfuddsoddi ydyw ond nid yw rhai prosiectau'n mynd i elwa ar y buddsoddiad mor gyflym â hynny.” (**Prosiect a ariannwyd, Caerdydd a'r Fro**)

Roedd 17 o'r 22 ymatebydd i'r arolwg prosiectau a ariannwyd wedi cymryd camau i gyhoeddi bodolaeth eu prosiect yn ehangach. Y ffyrdd mwyaf cyffredin o wneud hynny oedd drwy daflenni newyddion mewnol neu allanol, drwy ddigwyddiadau lledaenu, a thrwy'r wasg neu'r cyfryngau lleol.

### 3.7.2 Eiriolaeth gan sefydliadau nas ariannwyd

Er na fyddai cynifer o'r ymatebwyr i'r arolwg prosiectau nas ariannwyd yn argymell gwneud cais i gyrff tebyg, roeddent yn dal yn gadarnhaol ar y cyfan (Tabl 3.11).

<b>Tabl 3.11: Eiriolaeth gan ymatebwyr o brosiectau nas ariannwyd</b>			
	<b>Byddwn</b>	<b>Niwtral</b>	<b>Na fyddwn</b>
Yn seiliedig ar eich profiad, a fydech yn argymell gwneud cais am gyllid o'r Gronfa Buddsoddi i Arbed i gyrff tebyg?	6	1	2
<i>Ffynhonnell: Arolwg prosiectau nas ariannwyd</i>			

Er nad oeddent wedi llwyddo i gael cyllid Buddsoddi i Arbed, roedd y cyfweleion o'r prosiectau nas ariannwyd yn gadarnhaol ar y cyfan pan ofynnwyd a fyddent yn argymell gwneud cais am gyllid i gyrff tebyg. Roedd y rhesymau a roddwyd yn cynnwys gwerth cael cyllid y gellid ei ddefnyddio i ysgogi prosiectau effeithlonrwydd, a'r ffaith nad oedd ffynonellau eraill o gyllid ar gael i rai sefydliadau:

“Byddwn – yn bendant. Rwy’n meddwl bod awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus eraill yn gorfod newid eu ffyrdd presennol o weithio. Rwy’n meddwl bod llawer o’r newid hwnnw’n cynnwys cyllid ysgogi, ac nid oes gan lawer o awdurdodau lleol, er enghraifft, gyllid o’r fath wrth gefn i’w gyfrannu. Os na chânt eu gweithredu, ni fyddant yn arbed yn nes ymlaen.” **(Prosiect nas ariannwyd, Gogledd Cymru)**

“Byddwn, heb os. [...] Yn yr hinsawdd bresennol, mae’n rhoi cyfle i ni sicrhau arbedion sylweddol a mwy o effeithiolrwydd [...] ni fydd yn bosibl i bawb gael gafael ar y cyllid hwnnw heb fynd at Lywodraeth Cymru amdano.” **(Prosiect nas ariannwyd, Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Dyweddodd cyfwelai o brosiect nas ariannwyd y byddai’n argymhell gwneud cais i’r Gronfa ond pwysleisiodd bwysigrwydd paratoi agwedd ariannol y cynnig:

“Byddwn, mi fyddwn [yn argymhell]. Byddwn yn eu cynghori i sicrhau bod rhan ariannol y cynnig mor gadarn â phosibl ac i fod yn gwbl ymwybodol o’r ffordd mae’r holl beth yn gweithio [...] achos dyna lle y methon ni, rwy’n meddwl.” **(Prosiect nas ariannwyd, Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Er bod un cyfwelai o brosiect nas ariannwyd yn cefnogi’r Gronfa, nid oedd yn meddwl bod ei diben yn glir:

“Rwy’n meddwl bod cael cronfa Buddsoddi i Arbed genedlaethol yn syniad da, ond yn fy marn i mae angen i Lywodraeth Cymru fod yn glir iawn ynghylch ei phrif nod, ac ynghylch y mathau o brosiectau y mae’n dymuno’u cefnogi.” **(Prosiect nas ariannwyd, Bae Abertawe)**

Gofynnwyd i gyfweleion o brosiectau nas ariannwyd a fyddent yn gwneud unrhyw beth yn wahanol mewn cais arall am gyllid Buddsoddi i Arbed. Yn gyffredinol, atebodd y cyfweleion na fyddent yn newid eu dull ryw lawer, ond dywedodd rhai y byddent yn rhoi mwy o sylw i agweddau ariannol y cynnig, yn hytrach na dim ond canolbwyntio ar welliannau i’r gwasanaeth:

“Rwy’n meddwl bod yr ochr ariannol, a deall yr ochr ariannol, yn bwysig. [Ar wahân i hynny], dw i ddim yn meddwl y byddem yn newid rhyw lawer.” **(Prosiect nas ariannwyd, Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

“[Byddem] yn cael trafodaethau gwahanol â'r tîm cyllid ynglŷn â sut y gallem symud adnoddau o gwmpas yn fewnol, ac rwy'n meddwl bod hynny'n dipyn o her [...] dyna'r rheswm, mae'n debyg, dyn ni ddim wedi gwneud cynnydd.” **(Prosiect nas ariannwyd, Caerdydd a'r Fro)**

### 3.7.3 Cyfraddau llog

Pan ofynnwyd a fyddent yn ymgeisio am gyllid Buddsoddi i Arbed yn y dyfodol os codid llog, ymatebodd cyfweleion o brosiectau a ariannwyd ac nas ariannwyd yn negyddol, a dywedodd rhai fod agwedd ddi-log y Gronfa yn un o'i phrif atyniadau<sup>6</sup>. At hynny, roedd rhywfaint o ansicrwydd ynglŷn â chyfreithlondeb codi llog ar brosiectau GIG.

“Os byddai llog yn cael ei godi ar gyllid Buddsoddi i Arbed, mae'n debyg na fyddem wedi gwneud cais, hyd yn oed os byddai'r gyfradd yn gystadleuol. Os gallwch fenthyca'n ddi-log, a bod yn deg, a ninnau'n cael ein rheoli a'n harchwilio fel hyn, pam benthyca â llog? Roedd rhaid bod mantais i ddilyn y llwybr Buddsoddi i Arbed.” **(Prosiect a ariannwyd, Caerdydd a'r Fro)**

“Mae'n eithaf posibl y dywedai ein cyfarwyddwr cyllid ein bod yn mynd i fynd at y farchnad agored amdano.” **(Prosiect nas ariannwyd, Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

### 3.7.4 Arferion da

Gofynnwyd i reolwyr prosiectau a ariannwyd rannu'r gwersi arfer da pwysicaf a ddysgwyd ganddynt wrth gynnig am gyllid ac wrth weithredu prosiectau Buddsoddi i Arbed. Crynhoir y prif bwyntiau a godwyd yn Nhabl 3.12, isod.

---

<sup>6</sup> At hynny, roedd un rhanddeiliad yn ansicr a oedd yn gyfreithlon codi llog ar brosiectau iechyd, oherwydd y cyfyngiadau benthyca sy'n gysylltiedig â'r GIG.

**Tabl 3.12: Arferion da i ymgeiswyr Buddsoddi i Arbed**

<ul style="list-style-type: none"><li>▪ Mae angen i'r amcanion fod yn realistig – peidiwch â gorbwysleisio'r manteision a fydd yn deillio o brosiect.</li></ul>
<ul style="list-style-type: none"><li>▪ Peidiwch â chyfyngu ar y gwaith paratoi – byddwch mor fanwl ag y gallwch.</li></ul>
<ul style="list-style-type: none"><li>▪ Sicrhewch fod y data sylfaenol yn gywir – bydd sefydlu sylfaen gadarn yn eich galluogi i gyfrifo'r manteision net yn nes ymlaen.</li></ul>
<ul style="list-style-type: none"><li>▪ Sicrhewch eich bod yn ymgynghori'n llawn â phawb sy'n debygol o gael eu heffeithio.</li></ul>
<ul style="list-style-type: none"><li>▪ Byddwch yn hyblyg – dylid disgwyl oedi oherwydd problemau, ac mae'n anochel y bydd prosiectau'n datblygu ac yn newid wrth i chi eu cyflawni.</li></ul>
<ul style="list-style-type: none"><li>▪ Pan fyddwch yn cydweithredu, sicrhewch fod yr holl randdeiliaid yn deall sut y gweithiwyd allan yr arbedion cost.</li></ul>
<ul style="list-style-type: none"><li>▪ Ewch ati ar y cychwyn, pan fyddwch yn cydweithredu, i sefydlu egwyddorion y cytunwyd arnynt ar gyfer y trefniadau llywodraethu.</li></ul>
<i>Ffynhonnell: Arolwg prosiectau a ariannwyd</i>

## 4. Argymhellion

Nod y gwerthusiad interim hwn oedd ystyried y cynnydd a wnaethpwyd hyd yma gan y Gronfa Buddsoddi i Arbed a'r prosiectau a gynorthwywyd; casglu'r gwersi sy'n cael eu dysgu am weithredu a gweinyddu; a nodi themâu ac ystyriaethau ar gyfer unrhyw werthusiad tymor hwy.

Yn seiliedig ar y canfyddiadau ymchwil a gyflwynwyd ac a drafodwyd ym Mhennod 3, gwneir yr argymhellion canlynol.

**Argymhelliad 1: Mae cefnogaeth gref i barhau â'r Gronfa Buddsoddi i Arbed er mwyn helpu prosiectau ledled Cymru sy'n gwella gwasanaethau cyhoeddus ac yn rhyddhau arian parod. Felly, argymhellir comisiynu gwerthusiad annibynnol o union ganlyniadau'r prosiectau ymhen 12-18 mis (rhwng dechrau a chanol 2013).**

Sail resymegol: Yn gyffredinol, mae'r Gronfa Buddsoddi i Arbed yn boblogaidd gan reolwyr prosiect a rhanddeiliaid, a chredir ei bod yn hanfodol i rai o'r prosiectau a gyllidwyd, yn enwedig y rhai mwy eu gwerth a'r rheini yn y GIG. Er ei bod yn rhy gynnar i rai rheolwyr prosiect asesu arbedion arian parod, mae'r mwyafrif yn hyderus fod Buddsoddi i Arbed wedi cael effaith gadarnhaol, gyda'r manteision cyffredinol yn gorbwyso unrhyw anfanteision yn sylweddol. Dylai comisiynu gwerthusiad o ganlyniadau prosiectau yn 2013 roi amser i fwy o brosiectau wireddu arbedion arian parod mesuradwy, fel bod sylfaen gyfoethocach o dystiolaeth ar gael i gyfeirio ati.

**Argymhelliad 2: O ystyried y cyfyngiadau benthyca sy'n rheoli'r GIG, dylid cydnabod wrth arfarnu cynigion Buddsoddi i Arbed pa mor allweddol y gall y Gronfa fod i helpu prosiectau sy'n cynnwys y GIG.**

Sail resymegol: Yn wahanol i'r GIG, mae gan lywodraeth leol opsiynau benthyca eraill, ac adlewyrchir hynny yn y canfyddiad fod bron hanner y cyllid Buddsoddi i Arbed (£22.1 miliwn) wedi mynd i brosiectau GIG, o gymharu â £16.3 miliwn i brosiectau'n cynnwys llywodraeth leol. Yng nghanfyddiadau'r ymchwil, roedd yn amlwg bod prosiectau GIG na chafodd gymorth yn llawer

llai tebygol o fynd rhagddynt na'r prosiectau llywodraeth leol na chafodd gymorth.

**Argymhelliad 3: Mae angen parhau i annog llywodraeth leol i ymwneud â'r Gronfa, ond gan gofio bod ffynonellau eraill o gyllid ar gael i'r sector.**

Sail resymegol: Er bod ffynonellau eraill o gyllid ar gael, mae lle i fonitro a hybu ymwneud llywodraeth leol â'r Gronfa, am fod y Gronfa wedi'i sefydlu i helpu prosiectau sy'n gwella gwasanaethau ac yn rhyddhau arian parod ar draws y sector cyhoeddus.

**Argymhelliad 4: Dylid parhau i ystyried nifer a gwerth y prosiectau a ariennir yng nghylchoedd y dyfodol, ac effaith hyn ar amlhau arbedion effeithlonrwydd.**

Sail resymegol: Yn dilyn yr ail gylch cynnig, penderfynodd panel swyddogion Buddsoddi i Arbed gyflwyno trothwy sylfaenol o £100,000 ar gyfer gwerth y cynigion i'w hystyried – ond dros y pedwar cylch cyntaf, cafodd mwy na hanner y prosiectau lai na £500,000 o gyllid. Mae argraff fod cyllid Buddsoddi i Arbed wedi bod yn fwy hanfodol i brosiectau mwy eu gwerth, ac awgrymwyd y byddai ariannu nifer fach o brosiectau mwy eu gwerth yn rhoi mwy o gyfle i graffu'n briodol ar brosiectau a ariannwyd. At hynny, mae argraff ymhlith rhanddeiliaid y gallai Llywodraeth Cymru wneud mwy i sicrhau newid sylweddol o ran diwylliant ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru, ac y gallai'r Gronfa Buddsoddi i Arbed annog hyn drwy ariannu llai o brosiectau – ond rhai mwy eu gwerth – a allai fod yn fwy tebygol o olygu cydweithredu daearyddol a thraws-sector parhaus. Felly, dylid rhoi mwy o ystyriaeth i lefel y trothwyon yng nghylchoedd y dyfodol, ac i'r ffordd y dosberthir y cyllid rhwng prosiectau mwy a llai eu gwerth.

**Argymhelliad 5: Er nad oes problemau mawr yn codi o'r broses gynnig bresennol, mae'r dystiolaeth yn awgrymu y gellid ystyried y gwelliannau canlynol:**

- a) **Cyflwyno themâu ar gyfer pob cylch cynnig i dargedu blaenoriaethau penodol Llywodraeth Cymru.**

Sail resymegol: Bydd hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru i ganolbwyntio ar flaenoriaethau penodol, ac ymgeiswyr i wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â phriodoldeb cynnig yn y cylch hwnnw.

**b) Cyflwyno aelod o'r tu allan i Lywodraeth Cymru i banel swyddogion Buddsoddi i Arbed.**

Sail resymegol: Byddai hyn yn cyflwyno safbwynt allanol i'r broses gynnig.

**c) Sut y caiff cynigion Buddsoddi i Arbed eu harfarnu ochr yn ochr â mathau eraill o gymorth gan Lywodraeth Cymru, megis cyllid Cyfalaf a Gedwir yn Ganolog.**

Sail resymegol: Gallai hyn helpu prosiectau a fydd yn ddibynnol ar ffrydiau ariannu eraill yn ogystal â Buddsoddi i Arbed.

**ch) Adolygu'r amserlen ar gyfer cyflwyno datganiadau o ddiddordeb.**

Sail resymegol: Roedd rheolwyr rhai o'r prosiectau nas ariannwyd ac ambell randdeiliad yn meddwl bod yr amserlen i gyflwyno datganiad o ddiddordeb yn rhy fyr.

**Argymhelliad 6: Dylid ymchwilio'n fanylach i ychwanegedd cyllid Buddsoddi i Arbed mewn unrhyw werthusiad annibynnol yn y dyfodol.**

Sail resymegol: Un o gasgliadau petrus y gwerthusiad hwn yw fod cyllid Buddsoddi i Arbed wedi bod yn fwy hanfodol i rai prosiectau (mwy eu gwerth fel arfer) nag i eraill. Fodd bynnag, mae wedi bod yn anodd cael tystiolaeth wrthffeithiol gadarn, a bydd angen ymchwilio'n fanylach i hynny os dymunir asesu ychwanegedd Buddsoddi i Arbed.

**Argymhelliad 7: Dylid ystyried ffyrdd o annog rheolwyr prosiect i hunanwerthuso'u prosiectau, gyda chymorth ar ffurf canllaw a/neu ddulliau a thechnegau safonedig, i ddangos manteision ac arbedion.**

Sail resymegol: Mae'r dulliau a ddefnyddir i fonitro gwelliannau i wasanaethau yn amrywio ar draws y prosiectau a ariannwyd, ac mae tuedd i'w defnyddio mewn ffordd anffurfiol neu anghyson. At hynny, mae'n ymddangos bod rhai

rheolwyr prosiect wedi cael trafferth priodoli arbedion arian parod yn uniongyrchol i'r prosiectau a ariannwyd. Felly, gallai rhoi canllaw hunanwerthuso i reolwyr prosiect sicrhau adrodd cyson ar gostau a manteision ar draws prosiectau, a helpu rheolwyr prosiect i werthuso llwyddiant eu prosiectau o ran cyflawni arbedion effeithlonrwydd a gwella gwasanaethau.



## Atodiad A: Arolwg prosiectau a ariannwyd

### Y Gronfa Buddsoddi i Arbed: Gwerthusiad Interim

Byddem yn ddiolchgar pe gallech gyfrannu at werthusiad interim Llywodraeth Cymru o'r Gronfa Buddsoddi i Arbed drwy lenwi'r holiadur byr hwn.

Nod yr holiadur yw'n helpu ni i asesu'r cynnydd a wnaed gan y Gronfa a chan y prosiectau y mae wedi'u cynorthwyo. Bydd yn dangos y gwersi a ddaw i'r amlwg am weithredu a gweinyddu, a bydd yn canfod themâu ac ystyriaethau ar gyfer gwerthusiad mwy manwl.

Dylai'r holiadur gymryd tua **20 munud** i'w gwblhau. Mae'r atebion i gyd yn gyfrinachol ac ni fydd unrhyw unigolion yn cael eu henwi yng nghanfyddiadau'r adroddiad.

Diolch.

### GWYBODAETH GEFNDIR

- 1) Enw'r prosiect:
- 2) Enw'ch sefydliad:
- 3) Beth yw'ch rôl chi yn y prosiect?
  - Rheolwr Prosiect
  - Uwch Swyddog â Chyfrifoldeb
  - Arall, manylwch
- 4) Ym mha sector y mae'ch sefydliad?
  - Llywodraeth Leol
  - Iechyd
  - Addysg bellach
  - Addysg uwch
  - Tân ac achub
  - Sector gwirfoddol
  - Arall, manylwch

### DOSBARTHIAD Y PROSIECT

- 5) Ym mha gylch Buddsoddi i Arbed y gwnaethoch chi gynnig?
- 6) Ydy'r prosiect wedi gorffen neu ydy'r prosiect ar fynd?
- 7) Tua sawl mis sydd gan y prosiect ar ôl i redeg?
- 8) Faint yw cyfanswm cyfraniad Buddsoddi i Arbed i'r prosiect hwn?

9) Ym mha rai o'r meysydd canlynol y mae pwyslais eich prosiect? Rhowch dic wrth bob un sy'n berthnasol.

- Gwella caffael nwyddau neu wasanaethau
- Trawsnewid prosesau busnes
- Gwneud gwell defnydd o'r ystad gyhoeddus
- Lleihau cost gwasanaethau corfforaethol
- Cyflwyno gwasanaeth yn fwy effeithlon
- Cyflwyno model newydd o gyflwyno gwasanaeth
- Arall, manylwch

10) Pa rai o'r canlynol sy'n rhan o'ch prosiect chi? Rhowch dic wrth bob un sy'n berthnasol.

- Timau ar y cyd
- Cyllidebau cyffredin
- Trefniadau rheoli ar y cyd
- Amcanion cyffredin
- Cyd-ymgyngori ar amcanion
- Rhannu gwybodaeth
- Is-adeiledd cefnogaeth gyffredin
- Arall, manylwch

## **GWREIDDIAU'R PROSIECT**

11) A oedd unrhyw waith wedi dechrau ar ddatblygu'r prosiect hwn cyn y cynnig Buddsoddi i Arbed?

- Oedd
- Nac oedd
- Ddim yn gwybod

12) Pam nad oedd y prosiect wedi'i ddatblygu cyn y cynnig Buddsoddi i Arbed? Rhowch dic wrth bob un sy'n berthnasol.

- Diffyg cyllid arall
- Ystyried y prosiect yn ormod o risg i barhau ag ef
- Trafferthion mewn cydweithio â sefydliad arall
- Arall, manylwch

13) Pa mor bell oedd y prosiect wedi'i ddatblygu cyn dechrau'r cynnig Buddsoddi i Arbed? Rhowch dic wrth un ateb yn unig.

- Syniad bras ond dim byd penodol
- Syniad gwreiddiol wedi'i roi ar fanyleb y prosiect
- Astudiaeth ddichonoldeb neu gynllun busnes wedi'i baratoi
- Eisoës wedi cael cymeradwyaeth ar gyfer cynllun peilot
- Cynllun busnes a chostau manwl wedi'u datblygu
- Y prosiect eisoës ar y gweill

- Ddim yn gwybod

## Y BROSES GYNNIG

14) I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?  
(Cytuno'n gryf; Cytuno; Ddim yn cytuno nac yn anghytuno; Anghytuno;  
Anghytuno'n gryf)

- Roedd y canllaw a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru o gymorth wrth baratoi'r cynnig
- Roedd yr hyn a ddisgwyd gan ein cynnig yn glir ym mhob cam o'r broses
- Fe wnaeth y broses o baratoi'r cynnig gryfhau ein prosiect
- Roedd y broses gynnig yn rhy feichus
- Mae'r broses gynnig yn fuddiol, waeth beth fo'r canlyniad
- Yn gyffredinol, rwy'n fodlon ar y broses gynnig

15) Yn seiliedig ar brofiad eich sefydliad chi, a oes gennych unrhyw argymhellion ynghylch gwella proses gynnig Buddsoddi i Arbed yn y dyfodol? Ysgrifennwch isod.

## CYDWEITHREDU

16) Yn gyffredinol, sut brofiad oedd cydweithio â sefydliad(au) partner ar y prosiect hwn?

- Da iawn
- Da
- Ddim yn dda nac yn ddrwg
- Gwael
- Gwael iawn
- Amherthnasol – nid prosiect cydweithredol oedd hwn

17) A ydych wedi profi unrhyw rai o'r manteision canlynol wrth gydweithredu ar y prosiect hwn? Rhwch dic wrth bob un sy'n berthnasol.

- Gostwng cost y prosiect
- Cyrraedd amcanion yn gynt
- Elwa ar brofiad pobl eraill
- Datblygu mwy o syniadau creadigol
- Manteisio ar adnoddau'r naill a'r llall
- Rhannu'r baich o weithio ar y prosiect
- Ni fyddai'r prosiect wedi digwydd heb y partneriaid
- Wedi datblygu mwy o syniadau ers ffurfio'r prosiect
- Arall, manylwch

18) A ydych wedi profi unrhyw rai o'r anawsterau canlynol wrth gydweithredu ar y prosiect hwn? Rhwch dic wrth bob un sy'n berthnasol.

- Ychwanegu at gost y prosiect
- Prosiect yn cymryd mwy o amser i'w gwblhau
- Gormod o opsiynau dan sylw

- Amcanion y prosiect yn mynd yn aneglur
- Gwrthdaro rhwng personoliaethau
- Dim cyfle cyfartal i bob partner roi ei farn
- Gormod o gyfarfodydd i'w mynychu
- Problemau gyda threfniadau ariannol
- Problemau gyda threfniadau rheoli
- Problemau gyda diogelu data
- Diffyg dealltwriaeth o'r ffordd yr oedd y partneriaid eraill yn gweithio
- Arall, manylwch

19) I ba raddau y cafodd y problemau a gawsoch eu goresgyn?

- Eu goresgyn yn llwyr
- Eu goresgyn gan mwyaf
- Ychydig o broblemau wedi'u goresgyn
- Ddim o gwbl
- Amherthnasol

20) A yw'ch profiad o weithio ar y prosiect hwn wedi'ch gwneud yn fwy neu'n llai tebygol o weithio ar brosiectau partneriaeth yn y dyfodol?

- Yn fwy tebygol
- Ddim wedi gwneud gwahaniaeth
- Yn llai tebygol

21) A oes gennych unrhyw sylwadau eraill am gydweithredu ar y prosiect hwn? Ysgrifennwch isod.

## **MANTEISION Y PROSIECT**

22) Drwyddi draw, a ddywedech fod arbedion cost y prosiect yn fwy na'r disgwyl, yn llai na'r disgwyl, neu'n dra thebyg?

- Mwy na'r disgwyl
- Fel y disgwyl
- Llai na'r disgwyl
- Ddim yn gwybod / rhy gynnar i ddweud

23) Yn eich tyb chi, beth yw'r prif resymau fod yr arbedion cost yn fwy na'r disgwyl? Rhowch dic wrth bob un sy'n berthnasol.

- Cost prynu mewnbynnau yn is na'r disgwyl
- Roedd angen llai o fewnbynnau arnom nag a ragwelwyd
- Roeddem yn fwy effeithiol yn troi mewnbynnau yn allbynnau na'r disgwyl
- Arweiniodd yr allbynnau at well deilliannau na'r disgwyl
- Roedd effaith risgiau'r prosiect wedi eu goramcangyfrif
- Arall, manylwch

24) Yn eich tyb chi, beth yw'r prif resymau fod yr arbedion cost yn llai na'r disgwyl? Rhowch dic wrth bob un sy'n berthnasol.

- Cost prynu mewnbynnau yn uwch na'r disgwyl
- Roedd angen mwy o fewnbynnau arnom nag a ragwelwyd
- Roeddem yn llai effeithiol yn troi mewnbynnau yn allbynnau na'r disgwyl
- Ni chynhyrchodd yr allbynnau y deilliannau boddhaol
- Roedd effaith risgiau'r prosiect wedi eu tanamcangyfrif
- Arall, manylwch

25) A ddywedech fod yr amser a roddwyd i weithredu a chynnal y prosiect yn fwy na'r disgwyl, yn llai na'r disgwyl neu'n dra thebyg?

- Mwy na'r disgwyl
- Fel y disgwyl
- Llai na'r disgwyl
- Ddim yn gwybod / rhy gynnar i ddweud

26) Yn eich tyb chi, beth yw'r prif resymau fod yr amser a roddwyd yn fwy na'r disgwyl? Ysgrifennwch isod.

27) Yn eich tyb chi, beth yw'r prif resymau fod yr amser a roddwyd yn llai na'r disgwyl? Ysgrifennwch isod.

28) Pa un o'r datganiadau hyn sydd agosaf at eich barn chi am fanteision ac anfanteision y prosiect hwn?

- Mae'r manteision yn gorbwyso'r anfanteision yn sylweddol
- Mae'r manteision yn gorbwyso'r anfanteision ryw ychydig
- Mae'r manteision a'r anfanteision yn weddol gyfartal
- Mae'r anfanteision yn gorbwyso'r manteision ryw ychydig
- Mae'r anfanteision yn gorbwyso'r manteision yn sylweddol

29) Yn eich tyb chi, beth yw'r prif resymau fod y manteision yn gorbwyso'r anfanteision? Ysgrifennwch isod.

30) Yn eich tyb chi, beth yw'r prif resymau fod yr anfanteision yn gorbwyso'r manteision? Ysgrifennwch isod.

## **YCHWANEGEDD**

31) Heb unrhyw gyllid Buddsoddi i Arbed, byddai'r prosiect wedi:

- Mynd yn ei flaen heb newid
- Mynd yn ei flaen fel prosiect ar raddfa lai
- Bod yn llai tebygol o fynd yn ei flaen
- Peidio â mynd ymlaen, yn bendant

32) Pe bai'r prosiect wedi mynd yn ei flaen ar raddfa lai, pa ganran o'r union lefel o gyllid fyddai wedi bod?

- Rhwng 80% a 99% o'r gyllideb

- Rhwng 60% a 79% o'r gyllideb
- Rhwng 40% a 59% o'r gyllideb
- Rhwng 20% a 39% o'r gyllideb
- Llai nag 20% o'r gyllideb

33) Beth yw'r prif reswm y byddai'r prosiect wedi bod yn llai tebygol o fynd yn ei flaen heb gyllid Buddsoddi i Arbed?

- Trafferth dod o hyd i gyllid arall
- Efallai na fyddai'r syniad am y prosiect wedi dod i'r amlwg oni bai am y gronfa Buddsoddi i Arbed
- Arall, manylwch

34) Beth yw'r prif reswm na fyddai'r prosiect yn bendant wedi mynd yn ei flaen heb gyllid Buddsoddi i Arbed?

- Trafferth dod o hyd i gyllid arall
- Efallai na fyddai'r syniad am y prosiect wedi dod i'r amlwg oni bai am y gronfa Buddsoddi i Arbed
- Arall, manylwch

## **EFFEITHIAU EHANGACH**

35) A ydych wedi ymgynghori â'r defnyddwyr gwasanaeth am lefelau eu boddhad â'r gwasanaeth ers i'r prosiect ddechrau?

- Ydym, rydym wedi ymgynghori â'n defnyddwyr gwasanaeth
- Ddim eto, ond rydym yn bwriadu ymgynghori â'n defnyddwyr gwasanaeth yn dilyn cwblhad y prosiect
- Nac ydym, nid ydym yn bwriadu ymgynghori â'n defnyddwyr gwasanaeth
- Amherthnasol

36) Sut buoch chi'n ymgynghori â'r defnyddwyr gwasanaeth? Rhowch dic wrth bob un sy'n berthnasol.

- Arolwg wyneb yn wyneb
- Arolwg ffôn
- Arolwg ar-lein
- Arolwg drwy'r post
- Grŵp(iau) ffocws
- Ffurflenni adborth
- Ymgynghoriad anffurfiol
- Arall, manylwch

37) A ganfu'r ymgynghoriad fod y boddhad â'r gwasanaeth wedi cynyddu, wedi gostwng, neu wedi aros yr un fath?

- Boddhad wedi cynyddu
- Dim newid
- Boddhad wedi gostwng

- Ni ellir cymharu

38) Beth oedd y rhesymau dros y cynnydd mewn boddhad? Ysgrifennwch isod.

39) Beth oedd y rhesymau dros y gostyngiad mewn boddhad? Ysgrifennwch isod.

40) Beth yw rhagolygon hirdymor y prosiect hwn ar ôl ad-dalu'r cyllid Buddsoddi i Arbed?

- Mae'r prosiect yn debyg o barhau
- Mae'r prosiect yn debyg o gael ei brif-ffrydio yn y gwasanaeth arferol
- Mae'r prosiect yn debyg o ddod i ben
- Arall, manylwch

41) A yw gweithredu'r prosiect hwn wedi cael unrhyw effeithiau negyddol yn eich sefydliad eich hun?

- Ydyw
- Nac ydyw
- Ddim yn gwybod

42) Beth oedd yr effeithiau negyddol hyn yn eich sefydliad eich hun? Ysgrifennwch isod.

43) A yw gweithredu'r prosiect hwn wedi cael unrhyw effeithiau cadarnhaol yn eich sefydliad eich hun?

- Ydyw
- Nac ydyw
- Ddim yn gwybod

44) Beth oedd yr effeithiau cadarnhaol hyn yn eich sefydliad eich hun? Ysgrifennwch isod.

45) A ydych wedi cymryd unrhyw rai o'r camau hyn i gyhoeddi bodolaeth eich prosiect yn ehangach (o fewn eich sefydliad neu tu hwnt)? Rhowch dic wrth bob un sy'n berthnasol.

- Taflenni newyddion mewnol
- Taflenni newyddion allanol
- Digwyddiadau rhannu gwybodaeth
- Y Rhyngrwyd
- Cynadleddau neu seminarau
- Y wasg neu'r cyfryngau lleol
- Y wasg neu'r cyfryngau cenedlaethol
- Arall, manylwch

## **ARFERION GORAU AC EIRIOLAETH**

46) Yn seiliedig ar eich profiad, a fyddech yn argymhell gwneud cais am gyllid o'r Gronfa Buddsoddi i Arbed i gyrff tebyg?

- Byddwn, yn bendant
- Byddwn, mae'n debyg
- Na fyddwn, mae'n debyg
- Na fyddwn, yn bendant
- Ddim yn gwybod

47) Beth ddywedech chi yw'r wers bwysicaf o ran arferion da a ddysgoch o'ch profiad o'r prosiect Buddsoddi i Arbed hwn?

48) Beth ddywedech chi yw'r fagl bwysicaf i fod yn ymwybodol ohoni o'ch profiad chi o'r prosiect Buddsoddi i Arbed hwn – gwerau a fyddai'n werthfawr i brosiectau eraill?

49) Yn olaf, a oes gennych unrhyw sylwadau eraill y dymunwch eu hychwanegu am eich profiad o ddefnyddio'r Gronfa Buddsoddi i Arbed?



## Atodiad B: Arolwg prosiectau nas ariannwyd

### Arolwg o'r Cynigion nas Ariannwyd neu a Dynnwyd yn Ôl

Byddem yn ddiolchgar pe gallech gyfrannu at werthusiad interim Llywodraeth Cymru o'r Gronfa Buddsoddi i Arbed drwy lenwi'r holiadur byr hwn.

Nod yr holiadur yw'n helpu ni i asesu ychwanegedd y Gronfa drwy ddangos beth ddigwyddodd i'r prosiectau na chafodd eu hariannu, ac i roi cyfle i chi fynegi'ch barn am y broses gynnig.

Dylai'r holiadur gymryd tua **10 munud** i'w gwblhau. Mae'r atebion i gyd yn gyfrinachol ac ni fydd unrhyw unigolion yn cael eu henwi yng nghanfyddiadau'r adroddiad.

Diolch.

### GWYBODAETH GEFNDIR

- 1) Enw'r prosiect:
- 2) Enw'ch sefydliad:
- 3) Beth oedd eich rôl yn y cais Buddsoddi i Arbed?
  - Rheolwr Prosiect
  - Uwch Swyddog â Chyfrifoldeb
  - Arall, manylwch
- 4) Ym mha sector y mae'ch sefydliad?
  - Llywodraeth Leol
  - Iechyd
  - Addysg bellach
  - Addysg uwch
  - Tân ac achub
  - Sector gwirfoddol
  - Arall, manylwch

### DOSBARTHIAD Y PROSIECT

- 5) Ym mha gylch Buddsoddi i Arbed y gwnaethoch chi gynnig?
- 6) Beth oedd cyfanswm cyfraniad Buddsoddi i Arbed y gwnaethoch gais amdano i'r prosiect hwn?

## **GWREIDDIAU'R PROSIECT**

7) A oedd unrhyw waith wedi dechrau ar ddatblygu'r prosiect hwn cyn y cynnig Buddsoddi i Arbed?

- Oedd
- Nac oedd
- Ddim yn gwybod

8) Pam nad oedd y prosiect wedi'i ddatblygu cyn y cynnig Buddsoddi i Arbed? Rhowch dic wrth bob un sy'n berthnasol.

- Diffyg cyllid arall
- Ystyried y prosiect yn ormod o risg i barhau ag ef
- Trafferthion mewn cydweithio â sefydliad arall
- Arall, manylwch

9) Pa mor bell oedd y prosiect wedi'i ddatblygu cyn dechrau'r cynnig Buddsoddi i Arbed? Rhowch dic wrth un ateb yn unig.

- Syniad bras ond dim byd penodol
- Syniad gwreiddiol wedi'i roi ar fanyleb y prosiect
- Astudiaeth ddichonoldeb neu gynllun busnes wedi'i baratoi
- Eisoës wedi cael cymeradwyaeth ar gyfer cynllun peilot
- Cynllun busnes a chostau manwl wedi'u datblygu
- Y prosiect eisoës ar y gweill
- Ddim yn gwybod

## **Y BROSES GYNNIG**

10) I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol? (Cytuno'n gryf; Cytuno; Ddim yn cytuno nac yn anghytuno; Anghytuno; Anghytuno'n gryf)

- Roedd y canllaw a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru o gymorth wrth baratoi'r cynnig
- Roedd yr hyn a ddisgwyd gan ein cynnig yn glir ym mhob cam o'r broses
- Fe wnaeth y broses o baratoi'r cynnig gryfhau ein prosiect
- Roedd y broses gynnig yn rhy feichus
- Mae'r broses gynnig yn fuddiol, waeth beth fo'r canlyniad
- Yn gyffredinol, rwy'n fodlon ar y broses gynnig

11) Yn seiliedig ar brofiad eich sefydliad chi, a oes gennych unrhyw argymhellion ynghylch gwella proses gynnig Buddsoddi i Arbed yn y dyfodol? Ysgrifennwch isod.

## **YCHWANEGEDD**

12) Beth ddigwyddodd i'r prosiect ar ôl i'r cynnig Buddsoddi i Arbed gael ei wrthod/ei dynnu yn ôl?

- Aeth y prosiect yn ei flaen heb newid
- Aeth y prosiect yn ei flaen ar raddfa lai
- Aeth y prosiect yn ei flaen ar raddfa lai ond yn ddiweddarach
- Nid aeth y prosiect yn ei flaen
- Dim penderfyniad eto – gall y prosiect fynd yn ei flaen o hyd
- Ddim yn gwybod

13) Beth yw'r lefel gyllido flynyddol ac o ble mae/oedd yr arian hwn yn dod?

14) Beth yw'r prif reswm nad aeth y prosiect yn ei flaen?

- Dim cyllid arall ar gael
- Ni fyddid wedi meddwl am y prosiect oni bai am gronfa Buddsoddi i Arbed
- Arall, manylwch

### **ARFERION GORAU AC EIRIOLAETH**

15) Yn seiliedig ar eich profiad, a fydddech yn argymhell gwneud cais am gyllid o'r Gronfa Buddsoddi i Arbed i gyrff tebyg?

- Byddwn, yn bendant
- Byddwn, mae'n debyg
- Na fyddwn, mae'n debyg
- Na fyddwn, yn bendant
- Ddim yn gwybod

16) A oes unrhyw beth y bydddech yn ei wneud yn wahanol pe baech yn cynnig am gyllid Buddsoddi i Arbed yn y dyfodol?

17) Yn olaf, a oes gennych unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu hychwanegu am eich profiad o wneud cynnig am gyllid Buddsoddi i Arbed?

## Atodiad C: Canllaw testunau ar gyfer cyfweiliadau â phrosiectau a ariannwyd

### CANLLAW TESTUNAU 1: YMATEBWYR I'R AROLWG O BROSIECTAU A ARIANNWYD

*Addaswch yng ngoleuni'r atebion a roddwyd i'r arolwg ar-lein.*

Enw'r cyfweilai:

Sefydliad:

Prosiect:

Dyddiad y cyfweiliad:

#### Gwreiddiau'r prosiect

- A oedd y prosiect wedi'i ddatblygu o gwbl cyn cynnig am gyllid BiA?
  - Os oedd: Pa mor bell oedd y prosiect wedi'i ddatblygu cyn y cynnig?
  - Os nad oedd: Beth yw'r rhesymau nad oedd eich prosiect wedi'i ddatblygu cyn cynnig am gyllid BiA? Yn benodol:
    - A ddatblygwyd y prosiect achos bod cyllid ar gael?
    - Neu a oedd angen strategol am y prosiect, a'r Gronfa wedi helpu i hwyluso'i ddatblygiad?
    - (Yn dibynnu ar yr ateb), a fyddai eich agwedd yn wahanol at unrhyw brosiectau yn y dyfodol?

#### Y broses gynnig

- Pa mor ddefnyddiol oedd y canllaw a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru wrth baratoi eich cynnig?
- A oedd gennych ddealltwriaeth glir o'r hyn a ddisgwyliid gennych ym mhob cam o'r broses gynnig?
- A wnaeth y broses o baratoi'r cynnig gryfhau eich prosiect mewn unrhyw ffordd?

Os do – sut? / Os naddo – pam?

- A ddywedech fod y broses gynnig wedi bod yn fuddiol i'ch prosiect waeth beth fyddai'r canlyniad? Pam?
- Pa mor feichus oedd y broses gynnig yn eich tyb chi?
- Yn seiliedig ar eich profiad, sut gellid gwella'r broses gynnig?

### **Cydweithredu**

- A yw'r prosiect yn un cydweithredol, h.y. a ydych yn cydweithio â sefydliadau partner? [**os na, ewch i Manteision y Prosiect**]
- Sut brofiad oedd cydweithio â sefydliad(au) partner ar y prosiect hwn?
  - Beth oedd prif fanteision y cydweithredu? (Awgrymiadau: e.e. gostwng cost; arbed amser; elwa ar brofiad eich gilydd; syniadau creadigol; defnyddio adnoddau eich gilydd)
  - Beth oedd prif anawsterau'r cydweithredu? (Awgrymiadau: e.e. ychwanegu at y gost; cymryd mwy o amser; gormod o safbwyntiau; gwrthdaro rhwng personoliaethau; trefniadau ariannol neu reoli anodd)
- Pa mor hawdd oedd goresgyn unrhyw broblemau'n ymwneud â chydweithredu?
  - A allwch roi enghreifftiau o sut y goresgynnwyd y problemau?
- A yw'r profiad hwn wedi eich gwneud yn fwy neu'n llai tebygol o weithio ar brosiectau partneriaeth yn y dyfodol?

### **Manteision y prosiect**

- Yn gyffredinol, a ddywedech fod **arbedion cost** y prosiect yn fwy na'r disgwyl, yn llai na'r disgwyl, neu'n dra thebyg?
  - Pam? (Awgrymiadau: cost mewnbynnau yn wahanol i'r disgwyl; deilliannau yn wahanol i'r disgwyl; risgiau'r prosiect wedi'u goramcangyfrif/ tanamcangyfrif)

- Yn gyffredinol, a ddywedech fod **manteision nad ydynt yn arian parod** y prosiect yn fwy na'r disgwyl, yn llai na'r disgwyl, neu'n dra thebyg? (Cwestiwn ychwanegol os bydd angen: Ar wahân i arbedion cost, a allwch feddwl am unrhyw fanteision eraill a ddeilliodd o'r prosiect, fel gwelliannau i'r gwasanaeth?)
  - Pam?
- A ddywedech fod yr **amser a ymrwymwyd** i weithredu a chynnal y prosiect wedi bod yn fwy na'r disgwyl, yn llai na'r disgwyl, neu'n dra thebyg? Pam?
- Yn gyffredinol, a ddywedech fod manteision y prosiect yn gorbwysu'r anfanteision ai peidio?
  - I ba raddau?
  - Rhesymau?

### **Ychwanegedd**

- Heb unrhyw gyllid BiA, beth fyddai wedi digwydd i'r prosiect? A fyddai wedi mynd yn ei flaen heb newid / ar raddfa lai / ddim wedi mynd ymlaen o gwbl?
  - Rhesymau? (Awgrym: e.e. cyllid ar gael o rywle arall)
- A ydych yn meddwl y byddech wedi gwneud cais am gyllid Buddsoddi i Arbed os byddai llog yn cael ei godi?

### **Effeithiau ehangach**

- A ydych wedi ymgynghori â defnyddwyr gwasanaeth ar unrhyw gam o'r prosiect?
  - Cyn y prosiect (e.e. sylfaen)?
  - Yn ystod y prosiect?
  - (Os yw'n berthnasol) ar ôl y prosiect?
  - Os ydych: Sut aethoch ati i ymgynghori? Beth yw effaith y prosiect e.e. ar foddhad â'r gwasanaeth? Rhesymau?
    - A wnaethoch holi defnyddwyr gwasanaeth am eu disgwyliadau o'r

gwasanaeth, neu am y newidiadau sy'n cael eu gwneud iddo?

- Beth yw rhagolygon y prosiect hwn yn y tymor hwy, ar ôl ad-dalu'r cyllid Buddsoddi i Arbed? (E.e. bydd y prosiect yn parhau; dod i ben; cael ei brif-ffrydio yn y gwasanaeth arferol)
- A yw gweithredu'r prosiect hwn wedi cael unrhyw effeithiau negyddol yn eich sefydliad eich hun?
  - Os ydyw: pa effeithiau negyddol? A ydynt yn cael eu goresgyn?
- A yw gweithredu'r prosiect hwn wedi cael unrhyw effeithiau cadarnhaol yn eich sefydliad eich hun?
  - Os ydyw: pa effeithiau cadarnhaol?

#### **Arferion da ac eiriolaeth**

- Yn seiliedig ar eich profiad, a fydddech yn argymhell gwneud cais am gyllid o'r Gronfa Buddsoddi i Arbed i gyrff tebyg? Os byddech / na fydddech – pam?
- Beth ddywedech chi yw'r wers bwysicaf o ran arferion da a ddysgoch o'ch profiad o'r prosiect hwn?
- Beth ddywedech chi yw'r fagl bwysicaf i fod yn ymwybodol ohoni o'ch profiad chi o'r prosiect BiA hwn – gwers a fyddai'n werthfawr i brosiectau eraill?

- A oes gennych unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu hychwanegu?

*Diolch a chloi.*

## Atodiad CH: Canllaw testunau ar gyfer cyfweiliadau â phrosiectau nas ariannwyd

### CANLLAW TESTUNAU 2: YMATEBWYR I'R AROLWG O BROSIECTAU NAS ARIANNWYD

*Addaswch yng ngoleuni'r atebion a roddwyd i'r arolwg ar-lein.*

Enw'r cyfweilai:

Sefydliad:

Prosiect:

Dyddiad y cyfweiliad:

#### Gwreiddiau'r prosiect

- A oedd y prosiect wedi'i ddatblygu o gwbl cyn cynnig am gyllid BiA?
  - Os oedd: Pa mor bell oedd y prosiect wedi'i ddatblygu cyn y cynnig?
  - Os nad oedd: Beth yw'r rhesymau nad oedd eich prosiect wedi'i ddatblygu cyn cynnig am gyllid BiA?

#### Y broses gynnig

- Pa mor ddefnyddiol oedd y canllaw a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru wrth baratoi eich cynnig?
- A oedd gennych ddealltwriaeth glir o'r hyn a ddisgwyliid gennych ym mhob cam o'r broses gynnig?
- A wnaeth y broses o baratoi'r cynnig gryfhau eich prosiect mewn unrhyw ffordd? Os do – sut? / Os naddo – pam?
- Pa mor feichus oedd y broses gynnig yn eich tyb chi?
- A ddywedech fod y broses gynnig wedi bod yn fuddiol i'ch prosiect waeth beth fyddai'r canlyniad? Pam?
- Yn seiliedig ar eich profiad, sut gellid gwella'r broses gynnig?



### **Ychwanegedd**

- Beth ddigwyddodd i'r prosiect ar ôl i'r cyllid BiA gael ei wrthod / ei dynnu yn ôl? Prosiect wedi mynd yn ei flaen heb newid / ar raddfa lai / ddim wedi mynd ymlaen o gwbl?
  - Rhesymau? (Awgrym: e.e. cyllid ar gael o rywle arall; os felly, o ble?)
- A ydych yn meddwl y byddech wedi gwneud cais am gyllid Buddsoddi i Arbed os byddai llog yn cael ei godi?

### **Arferion da ac eiriolaeth**

- Yn seiliedig ar eich profiad, a fyddech yn argymhell gwneud cais am gyllid o'r Gronfa Buddsoddi i Arbed i gyrff tebyg? Os byddech / na fyddech – pam?
- A oes unrhyw beth y byddech yn ei wneud yn wahanol pe baech yn cynnig am gyllid Buddsoddi i Arbed yn y dyfodol?

- A oes gennych unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu hychwanegu?

*Diolch a chloi.*

## Atodiad D: Canllaw testunau ar gyfer cyfweiliadau â rhanddeiliaid

### CANLLAW TESTUNAU 3: AELODAU'R PANEL BiA A RHANDDEILIAID

*Addaswch ar gyfer rôl BiA y cyfweilai, e.e. aelod o'r panel neu rhanddeiliad.*

Enw'r cyfweilai:

Rôl o ran BiA:

Dyddiad y cyfweiliad:

#### Llwyddiant y Gronfa

- Yn eich tyb chi, a yw'r Gronfa wedi bod yn llwyddiannus hyd yma o ran cyrraedd ei phrif nodau, sef:
  - Cyflawni arbedion effeithlonrwydd sy'n rhyddhau arian parod yn sector cyhoeddus Cymru?
  - Gwella'r ffordd y darperir gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru?
- Beth yw'r prif bethau sydd wedi helpu'r Gronfa i gyrraedd ei nodau?
  - Ochr gyflenwi: e.e. cymorth gan Lywodraeth Cymru
  - Ochr alw: e.e. galw gan y sector cyhoeddus yng Nghymru; parodrwydd i newid; cydweithredu â sefydliadau eraill (os yw'n berthnasol)
- Beth yw'r prif bethau sydd wedi rhwystro'r Gronfa rhag cyrraedd ei nodau?
  - Ochr gyflenwi: e.e. cymorth gan Lywodraeth Cymru
  - Ochr alw: e.e. galw gan y sector cyhoeddus yng Nghymru; parodrwydd i newid; cydweithredu â sefydliadau eraill (os yw'n berthnasol)
- Beth, yn eich tyb chi, yw prif fanteision dull grantiau ad-daladwy fel cymhelliad i sicrhau gwelliannau ac arbedion effeithlonrwydd?
- Beth, yn eich tyb chi, yw prif anfanteision dull grantiau ad-daladwy fel cymhelliad i sicrhau gwelliannau ac arbedion effeithlonrwydd?

## **Y broses gynnig**

- **[I aelodau nad ydynt ar y panel]** – A ydych yn gwybod sut mae proses gynnig y Gronfa BiA yn gweithio?
  - Yn eich barn chi fel rhanddeiliad, beth ddylai rôl y panel BiA fod?
  - A ydych yn meddwl y byddai'n syniad da neu wael cael swyddog o'r tu allan i Lywodraeth Cymru ar y panel?
  - **[ewch ymlaen i'r adran nesaf, 'Ychwanegedd']**
- Beth yw eich barn am effeithiolrwydd y broses gynnig? Pam?
- Yn eich barn chi, pa mor ddefnyddiol i gynigwyr yw'r canllaw a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru?
- A ydych yn meddwl bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod gan gynigwyr BiA ddealltwriaeth glir o'r hyn a ddisgwylir ganddynt ym mhob cam o'r broses gynnig?
- A oeddech yn meddwl bod y broses o baratoi cynnig BiA yn cryfhau'r prosiectau mewn unrhyw ffordd? Os oeddech / nad oeddech – pam?
- Pa mor feichus yw'r broses gynnig (i ymgeiswyr, ac i'r panel)?
- A ddywedech fod y broses gynnig yn fuddiol i brosiectau waeth beth fo'r canlyniad? Pam?
- Sut gellid gwella'r broses gynnig?
- A ydych yn meddwl y byddai'n syniad da neu wael cael swyddog o'r tu allan i Lywodraeth Cymru ar y panel?

## **Ychwanegedd**

- Yn gyffredinol, beth yw eich barn am effaith y prosiectau a ariannwyd gan BiA ar:
  - Wella gwasanaethau cyhoeddus?
  - Gwella effeithlonrwydd / rhyddhau arbedion arian parod?

- Eu cyfatebiaeth strategol ag amcanion Llywodraeth Cymru?
- Os na fyddai'r Gronfa BiA yn bodoli, beth ydych yn meddwl fyddai'n digwydd i'r rhan fwyaf o'r prosiectau?
  - A wyddoch am rai a fyddai wedi mynd yn eu blaen beth bynnag, neu ar raddfa lai?
  - A wyddoch am rai yr oedd cyllid BiA yn hanfodol iddynt?
- Os na fyddai'r Gronfa BiA yn bodoli, ym mha ffyrdd eraill y gellid gwario adnoddau i helpu i:
  - Sicrhau gwelliannau mewn gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru?
  - Buddsoddi mewn ffyrdd eraill i ryddhau arian parod drwy arbedion effeithlonrwydd?

### **Effeithiau ehangach**

- Beth, yn eich tyb chi, yw prif fanteision y Gronfa o ran yr effaith ehangach ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru?
- Beth, yn eich tyb chi, yw prif anfanteision y Gronfa o ran yr effaith ehangach ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru?
- Ym mha ffyrdd y gellid gwella'r Gronfa BiA?
  - (Awgrym: cyflwyno cyfraddau llog cystadleuol?)
- A yw'ch rôl yng ngweinyddiaeth y Gronfa BiA wedi cael unrhyw effeithiau negyddol i chi, neu i'ch tîm / sefydliad eich hun?
  - Os ydyw: pa effeithiau negyddol? A ydynt yn cael eu goresgyn?
- A yw'ch rôl yng ngweinyddiaeth y Gronfa BiA wedi cael unrhyw effeithiau cadarnhaol i chi, neu i'ch tîm / sefydliad eich hun?
  - Os ydyw: pa effeithiau cadarnhaol?

- A oes gennych unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu hychwanegu?

*Diolch a chloi.*